

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 293 - 60c
Mai 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Pêl-
droedwyr
o fri**



Tudalen 2

**Cadwyn
cyfrinachau
yr ifanc**



Tudalen 12

**Charlotte
ar y brig**



Tudalen 22

Sioe Ffasiwn yn codi arian i Gancr y Fron



Cynhaliwyd Sioe Fasiwnau lwyddiannus iawn yn Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan er budd Ymchwil Cancr y Fron. Trefnwyd y noson gan Nerys Douch. Cymerwyd rhan gan nifer o siopau ond yn fwy arbennig cafwyd arddangosfa o ffrogiau priodasol staff yr ysgol a gwisgwyd o'r flwyddyn 1981 ymlaen. Codwyd bron i £5000 o bunnoedd ar y noson. Yn y llun uchod chwith, Nerys Douch trefnydd y noson a Huw "Fash" Rees sylwebydd y noson. Cymerodd Nerys ran ym Marathon Llundain gan godi arian tuag at "Breakthrough Breast Cancer".



Priodas Dda

Pêl-droedwyr o fri



Ar Sadwrn y Pasg priodwyd Dylan mab Mary a Gareth Davies, Maesglas, Drefach ag Elen merch Anthea a Mark Evans, Ffynnon dawel, Llangynog yng Nghapel Gibeon, Bancyfelin.



Tîm dan 13 oed Llambled yn cyrraedd y rownd derfynol yn nhwrnament Felinfach yn ddiweddar gyda'i hyfforddwr Dai Davies. Derbyniodd Szymek chwaraewyr y twrnament hefyd. Da iawn chi bois.



Tîm dan ddeg Clwb Rygbi Llambled yn ennill y twrnament yn Tymbl yn ddiweddar. Yn y llun gweler yr hyfforddwr Jeff Evans ac Eirian James a Robin McBryde a fu'n cyflwyno'r medalau iddynt. Llongyfarchiadau bois!

Taith Tractorau



Roedd yr haul yn gwenu'n braf ar ddydd Sul, Ebrill 10fed a daeth tyrfa dda i weld y 38 tractor a oedd wedi ymgynnull ar Gae'r Pentref, Cwmann i wneud y 'Tractor Run'. Cafwyd paned o de a pice ar y maen cyn dechrau ar y daeth o tua 30 milltir o amgylch rhan brydferth iawn o Sir Gâr. Roedd yn bleser gweld y tractorau yn mynd drwy'r pentref, yna i fyny i Baceyrhos ac ymlaen am Esgairdawe, Llansawel, Pumpsaint, Cwrtcadno a Ffarmers cyn dychwelyd nôl i gae'r pentref lle roedd barbeciw wedi ei drefnu. Ennillwyr y raffl oedd :-

John Green, Blaenplwyf; Iris Davies, 21 Maesfelin, Llanbed; Peter Davies, Derwendeg, Drefach; Lyn Thomas, Awelon, Llanfair; J.P. Williams, Llangwyrfon; Arwel Davies, Dolafon, Llanllwni; Daniel Davies, 21 Maesfelin, Llanbed; Beti Davies, Manglas, Cwmann; Terry Davies, Cae Ram

Diolch yn fawr i Wyn Rowcliffe a Gwyn Williams am drefnu'r diwrnod, i aelodau'r tîm a fi'n brysus yn ystod y dydd ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi a gwneud y diwrnod yn llwyddiant. Codwyd £2,215.00 at Apel Elain 2011, diolch o galon i chi gyd.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mai Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin 01545 571234
Mehefin Marian Morgan, Glasfan, Drefach 01570 480490
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Neges o'r gorffennol!

Daeth ymholiad i law gan berson oedd yn ymchwilio i'r arwyddion y gadawai 'tramps' ar ben yr hewl i rybuddio crwydriaid eraill am natur y fferm neu'r tŷ. Roeddwn wedi derbyn darn trwy law'r Parch Goronwy o waith y diweddar Vernon Williams, oedd a diddordeb yn hyn. Ymddangosodd yr erthygl yn rhifyn 99 o Clonc yn 1991. Meddyliais fod y person yma wedi gwneud gwaith ymchwil trwyadl iawn i ddod o hyd i hyn. Na! gwaith syml iawn - mynd ar y we - rhoi 'Welsh Tramp Signs' i mewn a dyma fynd nôl ugain mlynedd.

Diddorol hefyd oedd gweld enwau y crwydriaid a deithiau Ceredigion. Mae'n dda deall fod gwaith cyfrannwyr 'Clonc' o ddefnydd i rywrai.

Coesau da

Derbyniwyd cais yn ddiweddar am ddefnyddio llun a ymddangosodd yn rhifyn 3 o 'Clonc' Eisteddfod Genedlaethol 1984. Ydych chi'n cofio'r llun? Ydy'r 'coesau' yn dod a'r hanes yn fyw i chi? Ie dyma'r darlun o'r ferch a geisiodd gael golwg well o'r cadeirio trwy wthio ei hun i wagle ger un o ddrysau'r pafiliwn. Aeth i mewn yn rhwydd ond methodd a dod allan, a bu'n rhaid i fechgyn y frigad dân ddod a'i rhyddau. Cafwyd penillion gan y diweddar W.R.Evans i nodi'r achlysur. Mae un peth yn dal yn ddirgelwch. Pwy oedd y ferch? Roedd ganddi goesau deniadol dros ben ond y trueni yw mae wrth yr wyneb rwyf i yn adnabod pobol. Mae'r hanes ar dudalen 169 o 'Llais

Llwyfan Llambled' hefyd, lle dywed yr awdur Y Parch Goronwy - "Ond tybed pwy oedd piau'r benôl?"

Yr anffodus yn denu!

Mae gennym ni biolen gloff yn yr ardd. Yn groes i'r arfer mae hon yn cael llonydd. Mae rhywbeth yn perthyn i ni fel cenedl sy'n barod i helpu anffodusion. Mewn tŷ yn ddiweddar roedd na ddarlun o lwynog yn dod i chwilio am fwyd ger drws y patio. Gan fod hwn wedi canolbwyntio ar un teulu am gymorth roedd yn cael ei dderbyn.

Roedd teulu cyfagos yn wrthwynebwyr cadarn i hela llwynogod. Ni chai'r helwyr ddod ar gyfyl y lle. Flwyddyn yn ddiweddarach y cyntaf i wneud cais am i'r helwyr alw oedd y teulu yma. Roedd y rheswm dros hyn yn rhwydd, - yn ystod y flwyddyn roedd y cadno coch wedi dwyn dros ddwsin o ieir. Mae ymateb dyn yn medru newid yn eithaf cyflym ar adegau.

Dim Vinegar

Nodyn byr i orffen. Bachgen o 'Morocco' yn byw yng Nghymru, wedi meistrioli'r Saesneg ond yn dal yn eithaf bratiog. Daeth adre wedi bod yn prynu pysgod a sglodion ac achwyn wrth ei gymar eu bod yn chwerthin am ei ben bob tro y bydd yn archebu yn y siop. "Beth wyt ti'n ddweud?", holai hi. Iddo. "Rwy'n holi am ddau bysgodyn a sglodion ac rwy'n dweud wrthynt fy mod eisiau halen a dim viagra". Naws ryfedd fod pawb yn chwerthin.

Pob hwyl! CLONCYN

Melinau Gwynt

Mae Grŵp Achub Mynydd Llanllwni wedi treulio cyn dipyn o amser dros yr wythnosau diwethaf yn craffu ar ymateb craff Cyngor Sir Caerfyrddin i'r datblygiad arfaethedig a elwir gan gwmni RWE Npower Renewables yn Fferm Wynt Gorllewin Brechfa. Nid yw'r 28 o dwrbeini a arfaethir ganddynt ym Mrechfa ar Fynydd Llanllwni nac o fewn ffiniau plwyf Llanllwni, ond bydd yn cael effaith a ddisgrifir yn 'sylweddol' gan y Cyngor Sir ar dalp helaeth o blwyfi Llanllwni, Llanfihangel-ar-arth a Llanpumsaint.

Un pwynt pwysig a wneir yn ymateb y Cyngor Sir yw bod llawer o'r defnyddiau a gyflwynwyd gan gwmni RWE Npower Renewables i'w hystyried gan y Cyngor Sir, naill ai'n wallus neu'n annigonol neu'n gamarweiniol.



Mae Grŵp Achub Mynydd Llanllwni yn teimlo bod hyn llawn mor wir am gyflwyniad Renewable Energy Systems (RES) i osod 21 tyrbein gwynt ar Fynydd Llanllwni, Mynydd Llanfihangel Rhos-y-corn a Mynydd Llanybydder.

Penderfynwyd, felly, gynnig cyfle i holl drigolion plwyf Llanllwni i ofyn am ddelwedd bersonol yn dangos yr effaith a gaiff y melinau gwynt ar yr hyn a welir o Fynydd Llanllwni o'u gardd gefn nhw.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad treisiol cwmni RES. Mae gan John flog wythnosol yn y Carmarthen Journal. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk



MAI

- 7 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
- 7 Eisteddfod Talgarreg. Am ragor o fanylion ar 01545 590383 neu 01545 590295.
- 8 Rihysal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled- Caersalem Parcyrhos am 2.00.y.p.
- 8 Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 9 Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 13 Noson Goffi yn Festri Aberduar, Llanybydder am 7:00y.h. o dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder. Croeso cynnes i bawb.
- 13 Helfa Drysor Car yn Llanfair Clydogau.
- 14 Sêl Cist Car a bore Coffi yng Nghanolfan Pentref Cwmann gyda Phwyllgor Cylch Meithrin Coedmor.
- 15 Gymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yn Noddfa am 2.30y.p. a 6.00y.h.
- 17 **Pwyllgor Blynyddol CLONC yn Nhafarn y Drovers, Pumsaint am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.**
- 17 Ysgol Campws Llambled – Pigion yr Urdd yn neuadd Ffynnonbedr am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 23 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
- 28 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Pantydefaid, Prengwyn.
- 29 Cyfanfa Ganu Rali yng Nghapel Pantydefaid.
- 30 Carnifal Cwmann ar Gae'r Pentref.
- 30 Arwerthiant Cist Car Blynyddol Sefydliad y Merched ym Mhumsaint am 10y.b.

MEHEFIN

- 4 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
- 4 Noson 'Apel Elain 2011' yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda bwyd, adloniant, ocsiwn a raffl.
- 4 Taith gerdded o amgylch Dre-fach Felindre heibio i hen felinau gwlân a sawl carreg filltir arall yn hanes y diwydiant gwlân. I adael yr Amgueddfa am 10.30yb. Dewch â phecyn bwyd, dillad ac esgidiau addas. Dim cwn. Am ddim. 01559 370929.
- 10 + 11 Barbiciw a Gŵyl Gwrw yn Neuadd y Pentref Llanfair.
- 11 Diwrnod Hwyl gyda Sali Mali yn caeau Glan yr Afon, Llanllwni.
- 13 Taith Ddirgel Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 15 Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 24 a 25 'SPLASH' C.Ff.I. Ceredigin ar gaeau Llanllr, Talsarn.
- 25 Dawns Haf Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant am 7:00y.h. Tocynnau £20 ar gael oddi wrth Ann Herbert 01570 421392 / 07890 060357.
- 27 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

GORFFENNAF

- 2 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr. Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
- 2 Diwrnod Hwyl a Mabolgampau gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 9 Mabolgampau pentref Cwrtnewydd ar gae'r ysgol.
- 30 Ffêt y Pentre yn Neuadd y Pentref Llanfair.

AWST

- 13 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 20 Sioe Amaethyddol a Cheffylau Gorsgoch ac Arddagosfa Hen Beiriannau.
- 26-29 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambled.

MEDI

- 2 Sioe Ffasiynnau a Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I Ceredigion ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant, Llambled.
- 3 Sioe Llandysul.
- 10 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
- 11 Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.

Ysgol Cwrtnewydd

Ar gychwyn Mis Ebrill fe fu grŵp dawnsio'r ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod ddawns Sir Ceredigion ym Mhonrhydfendigaid. Daeth y grŵp yn gyntaf yn y gystadleuaeth dawns creadigol gyda'u perfformiad o'r enw Cantre'r Gwaelod. Bydd y grŵp dawnsio ynghyd a'r grŵp cerddoriaeth creadigol a'r parti unsain yn cystadlu yn eisteddfod genedlaethol yr Urdd yn Abertawe ar ddiwedd mis Mai.

Bu blwyddyn chwech yn yr ysgol Uwchradd yn dylunio a chreu daliwr pensiliau. Roedd pob un wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at gael ymweld a'r adran dechnoleg eto.

Aeth cynrhychiolaeth o blant yr ysgol i gystadlu yn ras trawsgwlad yr Urdd yn ystod y mis. Bu'r plant yn 'mwynhau' rhedeg o amgylch tir canolfan yr Urdd yn Llangrannog. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth wrth gludo'r plant yn ôl ag ymlaen.

Ar nos Iau'r seithfed aeth disgyblion yr ysgol i gymryd rhan yng nghymanfa ganu Shiloh, Llanbedr Pont Steffan. Roedd y noswaith o dan ofal Gerald Morgan ac aeth elw 'r weithgaredd tuag at yr Urdd.

Daeth PC Gwyndaf Lloyd i'r ysgol er mwyn siarad gyda'r disgyblion. Trafododd pobl sydd yn helpu gyda'r plant lleiaf a cyfaill ynteu gelyn gyda disgyblion blynyddoedd tri a phedwar . Roedd ei weithgareddau ar gyfer blynyddoedd pump a chwech wedi selio ar y thema wnes i ddim meddwl. Edrychwn ymlaen at groesawu PC Lloyd i'r ysgol eto yn yr Haf.Cawsom groeso ysgol Feithrin Drefach yn yr ysgol, roedd pawb wedi mwynhau ac edrychwn ymlaen i gael eu cwmni unwaith eto.

Daeth Karen Barnsley, athrawes sgiliau sylfaenol, i'r ysgol i gynnal noswaith o fathemateg i rieni. Thema'r noswaith oedd 'Sut maen nhw yn dysgu maths yn yr ysgol heddiw?' Daeth criw o rieni a staff ynghyd er mwyn trafod gwahanol ddulliau o fathemateg. Roedd y noswaith yn un hamddenol iawn gyda nifer o bwyntiau diddorol yn cael eu codi a'u datrys.

Diolch yn fawr i rieni, disgyblion, ffrindiau a staff yr ysgol am weithio mor galed yn ystod dydd Iau olaf y tymor a'r dyddiau dilynol wrth iddynt dacluso a phlannu yn yr ardd. Mae gardd yr ysgol yn edrych yn hyfryd iawn unwaith eto.

Cynhaliwyd cyngerdd ar ddiwedd y tymor er mwyn rhannu holl dalentau'r ysgol gyda'i chymuned. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn teuluoedd a ffrindiau'r ysgol wrth i'r plant berfformio nifer o eitemau a ddysgwyd yn ystod y tymor. Diolch yn fawr i'r plant, rhieni, hyfforddwyr a'r staff am eu gwaith caled yn ystod y tymor a fu.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Hefin a Mary Jenkins, Cathal ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar ddechrau mis Mai. Ymlaen i'r AUR nesaf!

Mab bach

Llongyfarchiadau i Mineira a Gareth, Y Gorlan ar enedigaeth mab bach. Croeso cynnes i chi hefyd i'r pentref.

Cellan

Diolch

Dymuna Mary Jones, Hafan ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth, y galwadau ffôn, llythyron a'r llu o gardiau, ymweliadau personol a'r blodau. Diolch hefyd i bawb am y cyfraniadau er cof am Myrddin. Trosglwyddwyd dros £1,000 i Gronfa Eglwys Cellan.

(Ymddiheuriadau mawr am fod y newydd mor ddiweddar yn cael ei gyhoeddi, rwy'n cwmpo ar fy mai.)

Parti

Bu trigolion Cellan yn dathlu mewn parti stryd yn Neuadd y Mileniwm ar ddiwrnod y Briodas Fawr.

Cartref Newydd

Pob hwyl i Dyfed, Meinir, Sion, Rhys a Deina yn eu cartref newydd yn Heol yr Orsaf, Llanbed, newid aer o Gellan!

Pwysig iawn!

Mae angen gohebydd newydd yng Nghellan nawr gan fy mod wedi troi yn 'towni'. Mae'n waith pwysig iawn ac yn dangos i ddarlennwyr Clonc pa mor brysur yw trigolion y Pentref. Gobeithio y bydd rhywun yn barod i barhau a'r gwaith-rhywun gwell na fi sy'n gwybod popeth!!! Enwau mor fuan a phosib plis.



Cwmann

Diolch

Dymuna Danny ag Ann, Brynteify a'r teulu ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ac am y blodau, cacennau a chardiau a dderbyniasom yn ystod eu profedigaeth o golli tad, tadcu a hen tadcu annwyl sef David Tom.

Dymuna Lyn a Lucy Thomas, Llanilltud Fawr ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion hael a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Nancy.; Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr a diolch am gofio amdanom.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Heini Thomas, Ty Hathren, Cwmann ar basio arholiad piano, gradd 3.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad a Danny a'r teulu Brynteifi ar farwolaeth ei dad, Mr. D.T Davies yng nghartref Maeslyllwelyn hefyd a Audra Davies, 10 Heol Hathren ar farwolaeth ei thad, Mr Wyn Herbert, Llanybydder.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Jeff Douch, Glynceri sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn

ddiweddar.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Tommy a Irene Price, Gelliwrol ar ddathlu eu penblwydd priodas arbennig. Mwynhewch y dathlu.

Coedmor – Sefydliad y Merched Coedmor

Ar nos Lun, 4 o Ebrill ymwelodd y gangen ar siop fwyd organeg ar Heol Tregaron. Cafwyd groeso mawr gan Cathrine Cramer a Susan Rees. Cafyd hanes y fusnes ganddynt a'n tywys oddi amgylch i ni weld beth oeddynt yn ei wneud yn eu gwaith bob dydd. Roedd y llysiau a'r ffrwythiau a phob math o fwyd organeg i gyd yn lleol ac yn edrych yn hyfryd ac o answadd da. Cafwyd cyfle i brynu er mwyn blasu ei cynnyrch. Gweunwyd cwpanaid a chacennau blasus i ddiweddi. Diolchwyd iddynt am y croeso a'r te gan Joyce. Atgoffodd Noleen bawb am y daith ddiregel yn mis Mai a diolchodd i'r rhai gymerodd ran yn y cwis lleol ac i Gwyneth am drefnu'r noson.

Clwb 125 Ebrill 2011

1. Christopher Northam, 38 Bro Eynon, Llanybydder, 88, 2. Mrs. Phyllis Jones, Cilgell Isaf, Cwmann,

77, 3. Mrs. Meinir Harries, Bryn-yr-efail, Pennant, 64, 4. Mr. Dennis Gilbey, 48 Heol Hathren, Cwmann, 142, 5. Mr. Edwin Harries, 8 Nant y Glyn, Cwmann, 23, 6. Mr. Iant Evans, Rhos Inn, Parc y rhos, Cwmann, 40, 7. Mrs. Marian Evans, Bronallt, Cwmann, 55, 8. Mr. David Herbert, Dolfor, Cwmann, 84, 9. Mr. Eifion Williams, Crown Stores, Lampeter, 25, 10. Mr. Wayne Evans, Annwylfa, Llanllwni, 82.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mair a Canon Wynzie Richards a Dilwen ac Arthur Roderick a'u teuluoedd ar farwolaeth eu brawd Mr Cliff Thomas.

Noson
Apel Elain 2011

Tecyn: £15 yn cynnwys Mochyn Rhos a bwyllt

Ticket: £15 to include Hog Roast with buffet

Adloniant gan y band 'Free Beer'

Dewch â diodydd a gwydau eich hunain

Entertainment by 'Free Beer' band

Bring your own drinks and glasses

Nos Sadwrn
4 Mehefin 19:30
Neuadd Sant Iago, Cwmann

Saturday
4 June 19:30
St James' Hall, Cwmann

On the night, bring your own drinks and glasses

To buy a ticket, contact June James on 01570 422901

Tim Pêl-droed Merched
Ysgol Carreg Hirfaen a enillodd cystadleuaeth 10 bob ochr Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau gwresog i chi ferched a phob dymuniada da ar lefel Cymru ar ddechrau mis Mai.



Llanybydder

Diolch

Dymuna Roselle, Llysneuadd ddiolch o galon am yr holl galwadau ffôn, cardiau a'r nwyddau a'r ôl dod adref o'r ysbyty wedi llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Hefyd, dymuna Ann, Gwarduar ddiolch am yr anrhegion cardiau a chyfrachion ar eu penblwydd arbennig.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant blynyddol Aberduar nos Fercher, Mawrth 16eg pan ddaeth llond y Festri o bobl ynghyd i brynu'r nwyddau amrywiol ac i gefnogi'r noson.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan y gweinidog y Parchedig Jill Tomos gan groesawu pawb yn gynnes i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendar yr eglwys.

Gwahoddwyd Ken Davies, Caerfyrddin i agor y noson

yn swyddogol. Yn wreiddiol o Lanybydder, bellach mae Ken ers llawer blwyddyn yn byw yng Nghaerfyrddin, ac yn ddiagon, ac ysgrifennydd yn Eglwys y Tabernacl. Yn ei anerchiad ddiddorol gyferiodd at ei gysylltiad agos a'r eglwys yn Aberduar ac at ei barch mawr i'r gweinidogion yn ystod ei ieuenctid sef Parchedig D.C. Griffiths a'r Parchedig W. H. Davies.

Cafwyd noson hapus a dymunol dros ben, ac elw ariannol sylweddol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd.

Diolch i'r aelodau am eu cyd-weithrediad gyda'r trefniadau, ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

Cerdd

Llongyfrachiadau i'r canlynol ar basio arholiadau ysgrifenedig Coleg Cerdd Brenhinol yn ddiweddar:-

Gradd 1 – Yvonne Evans, Tandderi [Anrhydedd]

Gradd 3 – Betsan Jones, High View

Gradd 5 – Lowri Elen Jones, Llambled a Meleri Davies, Tyngrug-Isaf [Teilyngdod]

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.



Masnachwyr / Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliu.

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Drefach a Llanwenog


Ysgol Llanwenog

Yn ystod y tymor hwn croesawyd nifer o amrywiol ymwelwyr i Ysgol Gynradd Llanwenog. Bu'r Babanod wrth eu boddau yn creu cardiau Sul y Mamau gyda Mrs Eleri Lewis, Rhiwson. Diolch yn fawr iddi am roi o'u hamser i rannu ei harbenigedd gyda ni. Daeth P. C. Gwyndaf Lloyd ar ymweliad â'r Ysgol eto y tymor hwn. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r negeseuon pwysig a gyflwynir ganddo, er enghraifft pwysigrwydd dilyn rheolau tu fewn a thu allan i'r Ysgol. Bu Cwmni Drama Arad Goch yn perfformio "Llyncu Geiriau" i'r disgyblion Iau. Roedd gweld y cymeriadau amrywiol yn dod yn fyw ar lwyfan yn brofiad arbennig i'r disgyblion. Cafodd y Babanod ddiwrnod wrth eu boddau yn gofalu ar ôl ŵyn bach. Diolch i Mrs Hull am ddod â hwy i'r ysgol am y dydd.

Mae disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 wedi bod yn derbyn hyfforddiant gan fyfyrwyr Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Yn ystod ein hymweliadau maent wedi bod yn ymgymryd â heriau Awyr Agored gan gynnwys Cyfeiriannu, Adeiladu Lloches, Datrys Problemau a Dringo. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddwy sesiwn arall yn ystod tymor yr haf.

Fel rhan o gynllun Pontio'r Cylch, mae ein disgyblion hefyd wedi elwa o amrywiol brofiadau yn Ysgol Gyfun Llambod. Roedd disgyblion blwyddyn 6 wedi llwyr fwynhau y gwersi Dawnsio Gwerin gyda Mr Gethin Page, ac roeddent wrth eu boddau yn cael defnyddio'r holl offer cyffrous yn y labordai yn y gwersi Gwyddoniaeth gyda Miss Mattie Evans.

Unwaith eto y tymor hwn mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol wedi bod yn cynnal eu nosweithiau ceginio. Cynhaliwyd dwy noson llwyddiannus iawn lle croesawyd rhieni a chyfeillion yr ysgol i gyd-swpera gyda ni yma yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i Ms Eleri Davies a Mrs Gill Jones am roi o'u hamser er mwyn medru cynnig y



Dyma Chloe Marie Jones a oedd yn fuddugol mewn cystadleuaeth Gelf yn Eisteddfod y Sir. Pob lwc iddi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Udd, Abertawe.



Braf oedd cael y profiad o gyd-weithio â Ysgol Eglwys arall, sef Ysgol Gynradd Penboyr, yn ddiweddar hefyd. Derbyniom wahoddiad caredig wrthynt i fynd ar ymweliad i Eglwys St. Barnabas, Drefach Felindre er mwyn ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â'r Pasg. Roedd yn sesiwn buddiol iawn ac edrychwn ymlaen at gael cyd-weithio eto yn y dyfodol agos.



Bu nifer o ddisgyblion y Dosbarth Iau yn cystadlu yng nghystadleuaeth y Cwis Llyfrau unwaith eto eleni, lle mae disgwyl i'r disgyblion drafod un llyfr a pherfformio cyflwyniad o lyfr gwahanol. Roeddem wrth ein boddau yn derbyn y newyddion ein bod yn llwyddiannus yn rownd Ceredigion ac felly bydd grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 3 a 4, a grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn y rownd Cenedlaethol yn ystod mis Mehefin. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

profiadau gwych yma i'r disgyblion.

Cynhaliwyd noson i ffarwelio â Mrs Liz Mills yn ddiweddar. Braf oedd cael y llywodraethwyr a'r staff ynghyd i ddiolch iddi am ei gwasanaeth i'r Ysgol. Cyflwynwyd tysteb a llun dathu 140 mlynedd yr Ysgol iddi. Dymunwn ymddeoliad hapus iddi.

C.F.I Llanwenog

Ar ddechrau mis Ebrill bu nifer o aelodau'r clwb yn cystadlu yn Niwrnod Maes y sir yng Nghastell Newydd Emlyn. Cynhaliwyd cystadlaethau Effeithlonrwydd a Diogelwch a Ffensio y Sul cynt yn Llangoedmor. Llongyfarchiadau i dîm Effeithlonrwydd a Diogelwch sef Arwel Jenkins, Heilin Thomas, Dorian Thomas a Carwyn Davies am gipio'r 2il wobwr ac i dîm y Ffensio sef Heilin Thomas, Steffan Davies a Steffan Jenkins am dod yn 3ydd.

Ar y dydd Sadrwn cafodd y clwb diwrnod arbennig o gystadlu a dyma'r canlyniadau:-

Trimio Oen - Steffan Davies - 3ydd

Tim Barnu Stoc Iau - Steffan Jenkins, Guto Jones, Daniel Morgans a Sioned Fflur - 3ydd

Tim Barnu Stoc Hŷn - Steffan Davies, Dorian Thomas, Heilin

Thomas a Arwel Jenkins- 3ydd a Heilin Thomas yn dod i'r pedwar uchaf fel unigolyn

Dawnsio Jazz - Carwyn Davies, Bleddyn Jones, Iwan Evans, Rhian Davies, Meleri Davies a Sioned Fflur - 1af. Hoffai'r clwb ddiolch i Sophie a Lauren Jones am eu hyfforddi.

Arddangosfa Ciwb - 1af, thema ciwb y clwb oedd Moulin Rouge Sialens Natur Iau - Sioned Davies a Meinir Davies - 1af

Ar ôl diwrnod hir o gystadlu brwd daeth y clwb i'r brig gan gipio Cwpan Pantlleine am y 4ydd gwaith yn olynol! Da iawn a llongyfarchiadau mawr i bawb!

Cafwyd noson o Helfa Wyau Pasg yn ysgol Llanwenog, diolch i Rhian a Iona Jones am drefnu noson llawn hwyl a sbri.

Aeth criw o bedair ar ddeg o aelodau'r clwb i Gala Nofio y Sir yn Aberaeron ar nos Wener yr 8fed o Ebrill. Llongyfarchiadau i'r clwb am ddod yn ail ar ddiwedd y noson a dyma'r canlyniadau:-

Front Crawl Merched dan 26 oed - Sioned Davies 3ydd, Gwennan Davies 4ydd. Front Crawl Bechgyn dan 26 oed - Gethin Hatcher 2il, Llyr Davies 3ydd. Breast Stroke Bechgyn dan 18 oed - Gareth Morgan Isaac 3ydd. Breast Stroke Merched dan 26

oed - Sioned Davies 3ydd, Gwennan Davies 4ydd. Breast Stroke Bechgyn dan 26 oed - Gethin Hatcher 2il, Dorian Thomas 3ydd. Ras Gyfnwidd 4 steil: Llyr Davies, Steffan Jenkins, Daniel Cooper a Gareth Morgan Isaac - 3ydd. Ras Pêl: Gwennan Davies, Sioned Davies, Meinir Davies a Sioned Fflur - 3ydd. Ras Cot Wen - Rhys Davies, Heilin Thomas, Gethin Hatcher a Dorian Thomas - 4ydd. Ras Arweinyddion: Gareth Jones, Cefnrhuddlan - 3ydd

Aeth nifer o'r aelodau i Gegin Gareth i goginio gwledd y gwanwyn. Cafodd pawb gyfle i goginio, ond rwy'n siwr fod pawb wedi mwynhau blasus'r bwyd arbennig ar ddiwedd y noson. Diolch i Gareth am y croeso cynnes.

Braf oedd gweld nifer iawn o aelodau Clwb Llanwenog yn cynrychioli Ceredigion yn Niwrnod Maes Cymru yn y Trallwng ar yr 16eg o Ebrill, llongyfarchiadau i bawb ac i'r Arddangosfa Ciwb am gipio'r 3ydd wobwr. Fel waneth Sir Ceredigion ddod yn 2il ar ddiwedd y diwrnod.

Cafwyd noson o Arwyddiaith yng nghofal Beyron a Briallt Willaims. Dyma sgil newydd o gyfarthrebu i nifer helaeth ohonom rwy'n siwr fod pawb wedi mwynhau a dysgu llawer yn y sesiwn yma. Diolch i'r ddau am roi o'u hamser i'n dysgu.

Eglwys Santes Gwenog

Oherwydd fod y Pasg yn hwyr eleni, prin iawn yw'n newyddion y mis yma. Gan fod y Pasg yn ŵyl arbennig yn y Calendr Eglwysig, edrychwn ymlaen i ymuno gyda'r Parch Suzie Bale mewn gwasanaethau o fyfyrddod ag addoliad gorfoleddus yn ystod yr wythnos fawr.

Dymunwn Pasg hapus i chwi a chofiw'n am yr aelodau sy ddim yn mwynhau y ieched gorau.

Os hoffech ein ficer i ymweld â chi i weinyddu 'Cymun Cartref' a fydddech mor garedig a chysylltu â hi yn y Ficerdy, neu gyda un o'r wardeniaid, Mr Keith Goodall, Sychbant, Cwmsychbant, neu Ms Nia Evans, Vale of Cledlyn, Drefach.

Y Gymdeithas Hŷn

Ar y 13eg o fis Ebrill, aeth y Gymdeithas ar ei taith gyntaf o gyfres tripiâu'r haf. Arhoswyd yng Nghaffi'r Pererinion ger yr Eglwys Gadeiriol yn Aberhonddu am 'te deg', ac yna ymlaen i Bontypŵl i'r Amgueddfa. Cartref yr amgueddfa yno yw'r stablau crand a godwyd i blas teulu'r Hanburys yn yr unfed ganrif ar bymtheg, perchnogion y gwaith haearn ym Mhonytpŵl o'r ganrif flaenorol, - cryn amser cyn y Crawshays ym Merthyr Tydfil. Roedd yno lawer o bethau diddorol i'w gweld, a chryn hanes i'w ddarllen, ond mae'n rhaid mae'r

Drefach a Llanwenog



Llongyfarchiadau

Yn mis Mawrth 2011 mi wnaeth John Milcoy, sydd yn gweithio yn Anthony Motors Aberystwyth, ennill gwobr am Cyflawniad Rhagorol Gwasanaeth Cwstmeriaid oddi wrth VW UK. Mi roedd hyn yn wobwr dros yn Deyrnas Unedig, ac ma wnaeth John ennill y wobwr yma ar noson wobrwyo a gafodd ei gynnal yng Ngwesty'r 'Savoy' yn Llundain.

mwyaf diddorol oedd yr eitemau o waith japanio Pontypŵl, sef hambyrddau, tebotau, bocsys, ayyb o dun wedi eu haddurno'n gelfydd i greu effaith y potiau a mewnoforiwyd o Japan yn yr amser hynny.

Wedi dwyauwr yno, teithiwyd yr ychydig bellter i ganolfan siopa Cwmbrân, - y dref 'newydd' a godwyd yn y pedwardegau, ac eto cael tua dwyauwr yno. Ar y ffordd adre, aros ym Mhontlliw am swper yn y Buck Inn, a phawb yn mwynhau'r pryd blasus.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Amgueddfa Llechi Cymru, Llanberis, ar yr 11eg o fis Mai. Enwau i Yvonne, 480590.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Jackie a Hefin Davies, Gŵel-y-dyffryn ar ddod yn ddatcu a mamgu, mab bach i Ffion a Jason. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Helen a Peter Howells, Tŷ Cam ar enedigaeth mab bach yn ystod y mis, Steffan Hedd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Mae CLONC ar werth yn:

Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambled
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambled
Eryl Jones, Llambled
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambled
Lomax, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder

Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafof, Gorsgoch
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

a thrwy danysgrifio am £15.00.
Cysylltwch â:
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Llanfair

Sefydliad y Merched

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Iris Quan, Blaencwm, Eleanor Evans, Nantymedd, Elaine Coombes, Penlanmedd a Iola Wilson, Panteg am gymeryd rhan yn y Ffair Wanwyn, Sefydliad y Merched, Ceredigion ac am gael y marciau uchaf ac ennill y cwpan i Llanfair. Da iawn chwi.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Dilys Evans, Nantymedd ar gyrraedd ei 40 yn gynharach y mis diwethaf. Gobeithio eich bod wedi cael amser da.

Ffair Crefft a Chynnyrch y Gwanwyn

Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda nifer wedi dod a chrefftau a chynnyrch i'w gwerthu. Roedd yn fore braf felly pleser oedd mynd allan i weld a phrynu a chael cymdeithasu dros paned o de a chacennau blasus.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad a Dai a Deborah Jones, Llanfair Fach, r golli ei modryb, chwaer Mam Dai, yr olaf o'r teulu nawr.

Clwb 100

Enillwyr Mis Ebrill
£20 Larry Taylor, Y Gorlan
£10 Yola Wilson, Panteg
£10 Eirwyn Evans,
Llanddeiniol
£10 Liz Mercer, Gelli
£5 Al Heron, Llanfair Siop
£5 Colin a Gwen Adam,
Brynheulog
£5 Rowena Williams, Maesllyn
£5 Sandra Taylor, Y Gorlan
£5 Deborah Jones, Llanfair
Fach
£5 Iris Quan, Blaencwm

Noson Gwis

Cafwyd noson hwylus ar Ebrill 9fed pan ddaeth digon i'r neuadd i wneud 4 tim. Linda Quelch oedd yn gyfrifol am y cwestynau ac yn ôl pob sôn roedd yn noswaith lwyddiannus dros ben.

Beth sydd ymlaen nesaf

Mai 13eg Helfa Drysor Car
Mehfin 10fed/ 11eg Barbiciw a Gŵyl Cwrw
Gorff 30ain Ffet y Pentre
Croeso cynnes i bawb

Rhifyn mis Mehefin

Yn y Siopau

Mehefin 2ail

Erthyglau i law erbyn

Mai 19eg

Newyddion i law erbyn

Mai 23ain



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Dantethion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Meigrin
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

O geiniog i geiniog y tro'r arian yn bunt



Opsiynau Ymddeol

Pan fyddwch chi'n nesau at oed ymddeol, bydd darparwr eich pensiwn yn ysgrifennu atoch i roi manylion eich cronfa bensiwn i chi. Byddan nhw'n dweud wrthych chi am defnyddio eich cronfa bensiwn i brynu blwydd-dal oes (Annuity). Mae blwydd-dal oes yn trosi eich cronfa bensiwn yn incwm pensiwn, a fydd yn cael ei dalu i chi am weddill eich bywyd.

Rhaid i chi wneud nifer o benderfyniadau pwysig yn awr, gan gynnwys:

- P'un ai a ddylech chi oedi cyn prynu blwydd-dal
- Ble y dylech chi ei brynu er mwyn cael y fargen orau
- Pa fath o flwydd-dal y dylech chi ei brynu
- A ddylech chi gymryd taliad unswm di-dreth o'ch cronfa bensiwn

Os nad yw cyfanswm eich holl gronfeydd pensiwn yn fwy nag isafswm penodol sef £18,000, gallwch chi gymryd y cyfan fel taliad unswm yn hytrach nag fel incwm.

Pwyntiau Allweddol

1. Mae blwydd-dal oes yn talu incwm pensiwn i chi am weddill eich bywyd
 2. Does dim rhaid i chi brynu un gan ddarparwr eich pensiwn. Gallwch chwilio o gwmpas o dan yr Opsiwn Marhnad agored, efallai y gallwch gynyddu eich incwm pensiwn drwy wneud hyn.
 3. Does dim rhaid i chi brynu un pan fyddwch chi'n cyrraedd oed ymddeol
- Mae faint o incwm pensiwn a gewch chi yn dibynnu ar nifer o ffactorau er enghraifft:
- Gwerth eich cronfa pensiwn
 - Cyfradd y blwydd-dal sy'n cael ei gynnig
 - Y math o flwydd-dal chi'n penderfynu ei brynu

- Eich rhyw (bydd menywod yn cael llai o incwm am fod disgwyl iddynt fyw'n hirach)
- Eich oedran (y ieuengaf ydych chi y lleiaf o incwm a gewch chi)
- Eich Iechyd neu'ch ffordd o fyw (efallai y cewch chi fwy o incwm os ydych chi'n ysmegu, os yw eich cholesterol yn uchel neu os yw'ch iechyd yn wael.)

Dewis y blwydd-dal cywir
Mae llawer o wahanol fathau ar gal, i gyd-fynd a'ch anghenion a'ch amgylchiadau; dyma'r mathau sylfaenol:

Bywyd Sengl – blwydd-dal i chi yn unig
Bywyd ar y cyd – blwydd-dal a fydd yn talu i chi ac yna i'ch priod neu'ch partner ar ol i chi farw

Blwydd-dal gwastad – talu'r un incwm pensiwn am weddill eich bywyd, nid yw'n cynyddu

Blwydd-dal cynyddol – fel arfer yn dechrau yn is ac yn codin raddol bob blwyddyn nail ai ar cyfradd sefydlog neu mewn cysylltiad gyda Mynegrif Prisiau Adwerthol (Retail Price Index).

Cyfnod Gwarant – bydd yr incwm yn parhau am y cyfnod hwnnw hyd yn oed os byddwch chi'n marw cyn hynny (pump neu ddeg mlynedd fel arfer)

Dylech bob amser holi yn gyntaf beth mae eich darparwr yn ei gynnig, a defnyddio hyn fel sail i chwilio o gwmpas. Efallai gallwch chi ychwanegu cymaint a thraean at werth eich incwm drwy chwilio o gwmpas. Mae'n bwysig felly i gael cyngor arbennigol pan ydych yng wynebu'r dewisiadau yma i sicrhau eich bod yn dewis yr opsiynau cywir, gan na fydd yn bosib i newid y blwydd-dal oes ar ol ei gychwyn.

Testun trafod mis nesaf fydd: Cynilo ar gyfer ymddeol

Gan Beca Russell, Cyngorwr Ariannol Annibynol gyda Cyfri Cyfyngedig

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Pencader, Pencarreg a Charreg Cennen

Mae'r enw Pencader yn cael ei gofnodi am y tro cyntaf gan Gerallt Gymro yn 1191 ac mae'n rhoi'r cyfieithiad Lladin cathedrae caput sef 'pen y gadair' ar gyfer yr enw Pencadeir. Bellach aeth Pencadeir yn Pencader gan ddilyn y patrwm disgwylledig mewn tafodieithoedd lleol.

Mae'r enw 'cadair' yn enw diddorol. Mae iddo nifer fawr o ystyron: yn ogystal â dodrefnyn i eistedd ynddo, gall ddynodi pwrs buwch neu ddafad, pasgaid, crud, cawell, clwstwr o ganghennau sy'n ymestyn o un boncyff, crib ar bladur, mesur mewn barddoniaeth, eisteddle pencerdd, gorsedd esgob, caer, amddiffynfa, bryn neu graig ar ffurf cadair.

Wedi ei fenthycu o'r Lladin cathedra y mae'r enw 'cadair' ac mewn enwau lleoedd bydd, fel rheol, yn dynodi 'caer, amddiffynfa neu fryn neu fynydd ar ffurf cadair'. Dyna a geir mewn lluo o enwau megis Cadair Idris, Cadair Benllyn, Cadair Arthur, Cadair Ferwyn.

Mae'n ddigon posibl y gallai'r enw Pencader gyfeirio at un o'r bryniau sydd o gwmpas y pentref; posiblirwydd arall yw ei fod yn cyfeirio at gastell Pencader, castell ar domen o bridd a gafodd ei godi, yn ôl pob tebyg, gan Gilbert de Claire, Iarll Caerloyw yn 1145.

Mewn Cernyweg mae'r enw sy'n cyfateb i cadair neu cader, sef 'cadar' yn cyfeirio bron yn llwyr at enwau creigiau ac mewn testun Cernyweg o'r bedwaredd ganrif ar ddeg digwydd Pengadoer sy'n cyfateb i'r ffurf Gymraeg Pencader.

Yng Ngheredigion, ger Blaenannerch ceir yr enwau Rhosygadair, Rhosygadair-fawr, Rhosygadair Newydd, Rhosygadair-uchaf. Mae'r elfen 'cadair' yn yr enwau hyn yn debygol o gyfeirio at y bryn sydd uwchben Rhosygadair-uchaf, y llecyn uchaf yn yr ardal. O ben y bryn hwn ceir golygfa dda dros y môr i gyfeiriad y gogledd.

Pencarreg

Mae'r enw Pencarreg yn digwydd am y tro cyntaf yn 1291 a'i ffurf yn y cyfnod cynnar hwnnw yw 'Penkarreck'. Mae'r pentref wedi tyfu ar lethrau bryn isel. Mae Blaencarreg ryw filltir i'r dwyrain ger tarddle ('blaen') nant fechan. Mae'r graig neu'r garreg yn agos i'r wyneb ac yn elfen amlwg ymwithiol yn nhirwedd y rhan hon o Ddyffryn Teifi. A dyna sy'n egluro'r enw: pentir carreg neu graig. Ar arfordir gogledd Sir Benfro mae Carreg Wylan a'r enw cyntaf unwaith eto yn dynodi 'craig'; yn yr un ardal yn Sir Benfro ceir Carreg y Frân, Carreg y Barcud.

Carreg Cennen

Carreg yn dynodi 'craig' a geir hefyd yn Carreg Cennen. Mewn rhai ffynnonellau mae 'caer' yn disodi 'carreg' yn yr enw hwn. Mae'r castell presennol yn perthyn i ddiwedd y 13eg ganrif ond ceir cofnod am gastell cynharach ar y safle yn 1248. Saif y castell uwchlaw Afon Cennen sy'n codi uwchlaw Blaen Cennen ar y Mynydd Du ac yn ymuno ag Afon Tywi gerllaw Ffair-fach. Enw cynharach ar Ffair-fach oedd Abercennen. Gallai Cennen fod yn enw person neu gallai'r elfen 'cen' gyfeirio at y tyfiant sy'n gyffredin ar galchfaen.

Y tro nesaf bydd cyfle i drafod tri enw arall, Caerfyrddin, Caerfyrddin-fach a Chilcennin.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos lau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merchod.

Cellan, Llambled

01570 422895

Llanbedr Pont Steffan

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar 30ain o Fawrth, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion - 1af. Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach, 2il. Brian Jones, Trelech, 3ydd. Iorwerth Evans, Llangybi. Merched - 1af. June Mason, Rhos Harford, Llambod, 2il. Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Mary Evans, Llanwnnen. Carden Miniature, Dynion - Ray Jenkins, Llanybydder, Merched - Catrina Davies, Aberaeron, Bwrw Allan - Enillwyr, Brian James, Trelech a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambod. Ail – Margret Jones, Pentrebach a Edward Lockyer, Llambod. Diolchodd y trefydd Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth.

Enillwyr Gyrfa Chwist 13eg o Ebrill – Dynion – 1af. Brian James, Trelech, 2il. Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach, 3ydd. Maggie Vaughan, Felinfach. Merched – 1af. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambod, 2il. Mary Evans, Llanwnnen, 3ydd. Ifan Jones, Aberarth. Carden Miniature, Dynion – Iorwerth Evans, Llangybi, Merched – Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambod. Bwrw Allan – Enillwyr, Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach a Sarah Humphreys, Alltyblacca. Ail – Maggie Vaughan, Felinfach a Nancy Davies, Heol y Wig. Diolchodd y trefnydd Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y Gyrfaodd Whist mis Mai ar nos Fercher yr 11fed a'r 25ain. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs. Pam Buckley, Bryntegwel, Heol Maestir ddiolch yn gynnes iawn am bob cymorth a chydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Ralph. Diolch o waelod calon i chi gyd – gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulliad da o aelodau a ffrindiau i'r Hen Neuadd ar Ebrill 19eg gan Selwyn Walters, a dechreuwyd y noson drwy gynnal y Cyfarfod Blyneddol. Cafwyd adroddiad ffafriol iawn gan y Cadeirydd a'r Trysorydd, ac ail etholwyd y Swyddogion a'r Pwyllgor yn unfrydol; er hynny, dymunodd Noel Davies sefyll i lawr o'r pwyllgor am rhesymau personol.

Siaradwraig wadd y noson oedd Megan Hayes sy' bellach yn byw yn Aberaeron, ond sy wedi bod a chysylltiadau cryf â Llambod, - ei rhieni oedd Mr a Mrs Daniel Lloyd, Delville, a Brynhathren, Cwmann wedi hynny. Ei thema oedd 'Cymry Llundain, a'r fasnach laeth'.

Soniodd fel yr oedd ei thad a'i mam wedi gadael Ceredigion yn ifanc iawn, i chwilio am waith yn Llundain, - gyda Chardis oedd eisioes wedi sylfaenu busnesau yno. Y cyflog yn bitw, a'r Cardis yn cael yr enw o fod yn dyn a'u harian.

Y ddau fusnes sy'n fwyaf cysylltiedig â'r Cymry oedd y diwydiant gwlân, - hynny'n arwain at sefydlu siopau mawr megis Peter Jones, a D.H.Evans, ac yna'r diwydiant llaeth. Adeg y porthmyn gyrrwyd gwartheg i Lundain, a chaent bori y tu allan i'r ddinas; mynd a'r da i mewn i'r ddinas wedyn i'w godro, fel bod y llaeth yn hollol ffres i'r cwsmeriaid. Allan o 152 o bobol oedd yn cadw gwartheg, roedd 77 ohonynt yn Gymry, ac o'r 1,700 oedd â rownd laeth, 700 ohonynt yn Gymry. Wedi hynny cludwyd llaeth ar tren i gyrraedd y ddinas fawr.

Priododd ei thad a'i mham yn 1928, a sefydlu busnes yn Shoreditch, cyn symud nifer o weithiau i wahanol rannau o'r ddinas. Codi'n blygeiniol i dderbyn churns 17 galwyn; llenwi poteli cwart, peint a hanner peint, rhoi'r capanau arnynt i gyd yn unigol, a'u dosbarthu i stepan drws eu cwsmeriaid erbyn 7 y bore. Byddai cyflenwad hwyrach yn mynd o amgylch mewn certi, a'r cwsmer yn dod a'i siwc. Wedyn roedd yn rhaid casglu'r poteli, eu golchi a'u sterileiddio yn barod i'r cyflenwad nesaf. Caws a menynt yn cyrraedd mewn bocsys mawr; felly roedd yn rhaid torri'r rhain yn dameidiau chwarter a hanner pwys, - a phob manylion yn cael ei ddarparu yn ôl y gofyn. Enwodd Megan sawl un oedd wedi mynd i weithio gyda'i rhieni o Geredigion, a gwelwyd eu lluniau ar y sgrin. Un ohonynt oedd Bet Blaenhirbant, sef mam Mary Jones, Penrheol, Cwmsychbant.

Yn sgil yr ymfudo i Lundain, tyfodd y capeli Cymraeg; yn 1866, roedd yna 18 o gapeli Cymraeg, ac erbyn 1925 roedd yna 32 ohonynt. Yn 1927 roedd gan Capel Charring Cross 1222 o aelodau, a Thabernacl King's Cross 1043 o aelodau yn 1931. Byddai gofyn fod yn y capel ymhell cyn dechrau'r oedfa i gael sedd. Erbyn hyn, 9 o gapeli Cymraeg sy'n dal ar agor.

Mae yna gymaint o hanes yn perthyn i'r adeg yma, - tipyn ohono wedi ei bortreadu yn y gyfres 'Palmant Aur', - ond hoffau Megan dderbyn unrhyw hanesyn gan bobol yr ardal hon, - mae gan bron i bob teulu rhyw cysylltiad â'r fusnes laeth yn Llundain mewn rhyw ffordd neu gilydd. Yn ôl geiriau T. Llew Jones, - "Peidiwch oedi'n hwy, - rhag ofn i'".

Diolchwyd yn gynnes i Megan am noson hynod o ddiddorol gan y cadeirydd, a bu cryn siarad am hanesion dros baned o de a choffi ar ddiwedd y noson.

Bydd y cyfarfod nesa'n nos Fawrth, Mai 17eg, 7.30 yn yr Hen neuadd, pan fydd Beverley Penney yn sôn am '25 mlynedd o Grwydro yn ardal Llambod'. Croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod Aelwyd yr Urdd ar 15 Mawrth yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr. Gwnaeth Geinor Medi groesawu ein gwestai am y noson sef Wyn Jones a Natalie Jones.

Cawsom llawer o hwyl yng nghwmni'r ddau yn chwarae amrywiaeth eang o gemau difyr iawn. Ar y diwedd diolchodd Elan Lewis i Wyn a Natalie am noson bleserus dros ben ac am roi o'u hamser i'r Aelwyd unwaith eto.

Nos Fawrth 12 Ebrill treuliodd orig hwyliog iawn yn rôl sgelfrio yn y Ganolfan Hamdden a Geinor Medi a Janet yn cadw trefn. Roedd ambell un yn arbenigwr yn y gamp ond rhai yn treulio fwy o amser ar y llawr!! Er gwaetha'r cyfan mwyhawyd y noson yn fawr iawn.

Cynhelir Helfa Drysor i gloi gweithgareddau'r tymor.

Noddfa

Ar ddiwedd Mawrth braf oedd gweld cynulliad lluosog iawn wedi dod ynghyd o bob cwr o'r wlad i Oedfa Ddathlu yn Ebeneser Llandeilo dan nawdd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Roedd Chwiorydd Ewrop, a oedd yn cynrychioli gwledydd Latvia, Hwngari, Norwy, Rwmania, Iseldiroedd, Yr Alban a Sbaen yn cynnal Pwyllgorau yn Llandeilo yn ystod yr wythnos ac yn gorffen gyda'r Oedfa arbennig hon. Cafwyd cyfarchion gan y chwiorydd i gyd gan gynnwys eu Llywydd Livija Lame o Latvia. Wrth wrando arnynt yn siarad ac yn rhannu eu profiadau â ni daeth eu cariad tuag at Grist yn amlwg iawn. Er mwyn i'r Chwiorydd o Ewrop brofi ychydig o ddiwylliant Cymraeg gwahoddwyd artistiaid o fri i gymryd rhan yn cynnwys Teifryn Rees, Llanelli, Dr. Mererid Hopwood, Caerfyrddin, Lavina Thomas Llandeilo, Dr Angharad Thomas a Meirion Wynn Jones, Castell Newydd Emlyn a Lisa, Elan a Beca yn cynrychioli Ysgol Sul Noddfa. Roedd y merched wedi cyflwyno datganiad swynol iawn o'r gân "Cariad Mam" ac Alwena yn cyfeilio gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn am eu cyfraniad arbennig. Datganodd yr ymwelwyr eu rhyfeddod at dalent rhai mor ifanc.

Yn dilyn yr oedfa hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu uwch paned o de.



Beca, Elan a Lisa gyda Livija lame o Latvia, Llywydd Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Ewrop.

Oedfa'r Ifanc

Braf oedd gweld cynulliad niferus o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos wedi dod ynghyd i Noddfa ar Sul y Mamau i oedfa arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet. Mewn ffordd effeithiol ar lafar ac ar gân bu'r plant a'r bobl ifanc yn diolch am gariad Mam ac yn dathlu gwrth y Gwanwyn a gorfoledd y Pasg. Roedd Teon a Rhys yn gyfrifol am y rhannau arweiniol a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Beca, Lowri Elen a Tomos. I ddechrau'r gwasanaeth bu'r gynulleidfa yn canu geiriau hyfryd emyn "Sul y Mamau" gan Beryl Davies un o'n haelodau dawnus. Y llefarwyr oedd Dewi, Steffan, Aron, Llinos a Sian ac offrymwyd gweddiau gan Elliw, Osian Jones ac Elan. Hefyd pleser oedd gwrando ar unawd swynol gan Lowri Elen, sgwrs ddiddorol yn cyfleu gwir ystyr y Pasg gan Tomos Rhys, Osian a Tomos a datganiad hyfryd o'r gân "Cariad Mam" gan Lisa, Elan a Beca. Bu'r plant lleiaf sef Gwenllian, Osian Roberts, Sion, Dafydd a Rhys Tom yn canu ac yn adrodd ac roedd mwynhad y gynulleidfa yn amlwg iawn wrth i bob un ohonynt roi o'u gorau glas. I gloi ymunodd y plant i gyd gyda brwdfrydedd i ganu dau emyn yn clodfori cariad Crist. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena a Janet.

Wrth nesau at ddiwedd y gwasanaeth cyflwynwyd datganiad bendigedig gan Alwena, Iona, Llinos a Sian o emyn James Nicholas "Cymundeb" ar yr alaw "Troyte" i'n harwain mewn ffordd hyfryd tuag at yr ordinhad bwysig hon. Bu'r plant hefyd yn rhan o'r teulu o gwmpas y bwrdd gan dderbyn sudd

Llanbedr Pont Steffan

afal a siocledi bach wrth i'n Gweinidog y Parch Jill Tomos eu hatgoffa pa mor bwysig yw diolch am bopeth yn enwedig am fwyd, am deulu, am gariad ac yn arbennig cariad Iesu tuag atom.

Talodd y Gweinidog ei gwerthfawrogiad cynnes i'r plant a'r bobol ifanc am eu cyfraniadau graenus, i Janet am ei pharatoadau manwl ynghyd â Llinos, Alwena a'r rhieni i gyd am eu cymorth a'u cydweithrediad parod gyda gwaith yr Ysgol Sul.

Roedd y plant wedi creu anrhegion yn yr Ysgol Sul dan gyfarwyddyd Llinos i'w cyflwyno i bob Mam ar y diwrnod arbennig hwn.

Llongyfarchwyd nifer o'r plant a'r bobl ifanc ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Pob lwc i Elliw, Lowri Elen a phawb sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r fro fel aelodau o bartion yr Aelwyd a'r Ysgol Gyfun ynghyd â grwp dawnsio Ffynnonbedr.

Dathlu'r Pasg yn Noddfa

Roedd festri Noddfa yn orlawn nos Lun 18 Ebrill ar gyfer gweithgarwch arbennig a drefnwyd i dathlu'r Pasg. Braf oedd gweld teuluoedd cyfan yn bresennol. Cyfle oedd hwn i atgoffa pawb o wir ystyr y Pasg ac ar yr un pryd i fwynhau cwmni ein gilydd mewn noson gymdeithasol. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parch Jill Tomos ac yna darllenwyd llythr o anogaeth yr apostol Paul i'w gyfeillion gan Myfanwy ac ychydig eiriau yn sôn am baratoadau gwledd y Pasg yn y Testament Newydd gan John, Margaret, Alun a Janet. Offrymwyd gras gan Osian, Tomos, Lisa, Elan a Beca cyn ein bod yn cyfranogi o'r prif gwrs ardderchog oedd wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Wedyn bu pawb yn dyst i weithred syml Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion yn ngofal Llinos, Alwyn a'r plant a Sian Rhandir fel llafarydd. Yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o bum pwddin chwaethus iawn oedd yn tynnu dwr o'r dannedd. Wedi paned o de daeth noson gofiadwy i ben gyda'r Gweinidog yn gweinyddu'r cymun a braf oedd gweld y plant hefyd yn rhan o'r ordinhad bwysig hon wrth iddynt dderbyn wyau Pasg bach a sudd afal.

Cyn troi tuag adref diolchodd Alun i'r Gweinidog am ei chyfraniad gwerthfawr ac i bawb oedd wedi cymryd rhan. Talodd deyrnged hefyd i'r chwiorydd am swper heb ei ail. Roedd pawb yn unfrydol ein bod wedi cael noson arbennig iawn yn dathlu'r Pasg yng nghmni ein gilydd.

Croesawu Cenhadon

Pleser mawr oedd croesawu Julia a James Henley o Goleg hyfforddi Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn Birmingham (BMS) sef ein gweithwyr cyswllt newydd i'n plith am y tro cyntaf fel Eglwysi Gogledd Teifi cyn iddynt fynd allan fel cenhadon i Beriw.

Daeth cynrychiolwyr o'r 6 eglwys ynghyd i Noddfa ar y Sadwrn i'w cwrdd ac i sgwrsio a dod i'w hadnabod wrth fwynhau cinio blasus iawn gyda'n gilydd. Yn dilyn hyn bu'r ddau yn ymweld â phob capel ac yn cwrdd â'r aelodau yno.

Nos Sadwrn cynhaliwyd noson gymdeithasol yn Aberduar. Mwynhawyd paned, bara brith a phicic ar y ma'n a phleser o'r mwyaf oedd gwrandao ar James a Julia yn rhoi eu hanes a'u gobeithion i ni drwy gyfrwng gair a llun.

Yna ar y Sul braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn o'r cylch wedi dod i gyd-addoli yn Noddfa. Cymerwyd rhan gan aelodau'r 6 eglwys a chafwyd gair gan Julia ac anerchiad gan James a erys yn ein cof am amser hir. Roedd brwdfrydedd y ddau yn heintus ac fe'n cyfareddwyd gan bersonoliaeth hoffus y ddau. Wrth wrando ar James a Julia yn rhannu eu profiadau â ni daeth eu cariad at Grist a'u dyhead i helpu eraill yn amlwg iawn.

Eu bwriad yw plannu eglwys yn bennaf drwy wasanaethu yn y gymuned mewn ardal wledig ym Mheriw. Dymunwn fendith a llwyddiant ar y gwaith wrth i'r ddau adael eu teuluoedd a'u ffrindiau yn ystod mis Mai a dechrau ar daith fydd yn newid eu bywydau am byth. Bydd yn bosib cadw golwg ar www.jhenley.co.uk am y newyddion diweddaraf.

Daeth penwythnos llwyddiannus a bendithiol i ben wrth i ni ymuno gyda James a Julia i ginio dydd Sul ardderchog yn ffreutur y Coleg. Diolchir o waelod calon i'n Gweinidog y Parch Jill Tomos ac i aelodau Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod Gorsgoch, Caersalem Parcyrrhos, Noddfa a Seion Cwrtnewydd am gydweithio hapus a'u cymorth mawr gyda'r trefniadau.

Colled Noddfa

Yn dawel yn yr ysbyty ar 21 Ebrill yn dilyn cyfnod o salwch hir bu farw y Parchedig W.J. Gruffydd, Brodawel, Tregaron yn 94 oed, llai na 6 mis ar ôl marwolaeth ei briod Jane. Roedd yn aelod ac yn Weinidog Anrhydeddus yn Noddfa Llambled ac yn gyn Weinidog eglwysi Bethel Silian, Caersalem Parcyrrhos a Noddfa. Yn un o feirdd enwog Ffair Rhos, roedd yn awdur toreithiog mewn aml gyfrwng a'i gyfraniad yn y maes yn un amhrisiadwy. Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1955 ac eto bum mlynedd yn ddiweddarach yng Nghaerdydd. Pwy all anghofio ei gyfrolau

poblogaidd iawn "Tomos a Marged"? Cawsant eu cyhoeddi fesul pennod yn "Y Cymro" a hefyd eu darlledu ar Radio Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dechreuodd ar ei swydd fel Archdderwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Llambled yn 1984 ac yn ystod seremoniau'r orsedd amlygwyd ei hiwmor naturiol ond er hynny ni chollwyd dim ar urddas y maen llôg nag urddas llwyfan y pafiliwn.

Ond yn anad dim Gweinidog yr Efengyl oedd W.J., fel yr adwaenir ef, a bu'n gwasanaethu mewn eglwysi yn Siroedd Penfro, Caerfyrddin a Cheredigion gan gyhoeddi'r Gair gydag arddeliad am gyfnod maith. Braint a phrofiad unigryw oedd cael bod yn un o'i aelodau yn ystod ei Weinidogaeth yng nghylch Llambled o 1988 - 1992. Mae'r atgofion o gyfnod hapus y Parchedig W. J. Gruffydd a'i briod yn ein plith yn aros o hyd.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Wyn, Mair â'r cysylltiadau i gyd yn eu profedigaeth.

Dydd Gweddi Byd -Eang y Chwiorydd

Da oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Eglwys Sant Pedr ar brynhawn hyfryd o Wanwyn i Gwrdd Gweddi Byd - Eang y Chwiorydd a baratowyd eleni gan Wragedd Cristnogol Chile ar y thema "Pa sawl torth sydd gennych?". Roedd y thema yn addas iawn ar gyfer y gwasanaeth oherwydd bwyteir bara yn ystod pob pryd bwyd yn Chile ac y mae'n rhan annatod o fywyd beunyddiol.

Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Eirian Williams, Cadeirydd y pwyllgor. Cymerwyd rhan gan chwiorydd eglwysi Bethel Parcyrrhos, Bethel Silian, Brondeifi, Caersalem Parcyrrhos, Carmel, Noddfa, Sant Iago, Sant Pedr, Sant Tomos, Shiloh a Soar. Cafwyd anerchiad diddorol a phwrpasol yn seiliedig ar y thema gan y Parch Janet Robbins. Casglwyd swm anrhydeddus o £163.95.

Diolchodd y Cadeirydd i'r wraig wadd am ei chyfraniad gwerthfawr, i Esme Payne yr organyddes ac i'r chwiorydd i gyd oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa. Teimlai pawb eu bod wedi cael bendith wrth ddod at ein gilydd i addoli ar y diwrnod arbennig hwn.

Dymuna aelodau'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad cynnes i Eirian am ei gwasanaeth arbennig fel Cadeirydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a hefyd i Elizabeth Warmington yr Ysgrifennydd ac i Hazel Davies y Trysorydd am eu gwaith diflino hwythau. Pob dymuniad da i chwiorydd Bethel Parcyrrhos sydd wedi cytuno i ymgymryd â'r swyddi.

Er gwybodaeth, cynhelir y cwrdd yng Nghaersalem Parcyrrhos yn 2012.

Cydymdeimlad

Cydymdemlir yn ddwys â phawb sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y mis aeth heibio.

Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yn Noddfa ar Sul Mai 15fed dan arweiniad Mrs. Elonwy Davies, Llanybydder - y plant am 2.30 a'r oedolion am 6 o'r gloch. Llywyddir oedfa'r prynhawn gan Mr. Eirian Morgan, Bethel Cwm Pedol a Mrs. Myfanwy Bryce, Noddfa yn ymgymryd â'r gwaith yn yr hwyr. Estynnir croeso cynnes i bawb a darperir te yn festri Brondeifi.

Llwyddiant Aelwyd yr Urdd

Yn dilyn llwyddiant yr aelodau yn yr Eisteddfod Gylch sef Meirion Sion Thomas (3 cyntaf), Lowri Elen (2 gyntaf) Elliw Dafydd (2 gyntaf) Gwawr Hatcher (2 gyntaf) a hefyd Sian Elin, Meinir Davies ac Aron Dafydd cyntaf yr un daeth llwyddiant mawr eto i ran yr Aelwyd yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion wrth ennill 7 cyntaf, 4 ail a 3 trydydd.

Dyma'r canlyniadau: Bl 7-9 - Unawd merched 1af Lowri Elen, llefaru 2ail Lowri Elen, unawd bechgyn 2ail Meirion Sion Thomas, unawd cerdd dant 2ail Meirion Sion Thomas, cyflwyno alaw werin 3ydd Meirion Sion Thomas, unawd piano 3ydd Meinir Davies. Bl 10 a dan 19 oed - Unawd allan o sioe gerdd 1af Elliw Dafydd, monolog 1af Elliw Dafydd, cyflwyno alaw werin 3ydd Aron Dafydd. 19 -25 oed - Cyflwyniad theatrig 1af Guto Gwilym, llefaru 2ail Guto Gwilym. Dyfarnwyd y partion deusain a'r llefaru dan 15 oed yn gyntaf a hefyd y parti cerdd dant dan 19 oed. Llongyfarchiadau calonnog i bawb ar eu llwyddiant a dymunir yn dda i Lowri, Elliw, Guto a'r partion sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r fro ar ddechrau Mehefin.

Dyfarnwyd partion canu a llefaru yr Adran yn drydydd yn Eisteddfod Gynradd Ceredigion. Mae'r aelodau yn haeddu canmoliaeth uchel eleni gan eu bod yn ifanc iawn o ran oedran ac o ran profiad. Hefyd roedd Tomos Jones yn drydydd yng nghystadleuaeth y llefaru i flynyddoedd 4 a 5 yn yr Eisteddfod Gylch.

Llanbedr Pont Steffan

Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Rhianon Lewis am hyfforddi'r partion canu ac i Elin Williams am hyfforddi'r partion llefaru heb anghofio cyfraniad gwerthfawr Lois Williams fel cyfeilydd. Diolch hefyd i Delyth Medi am y gosodiad cerdd dant a'i chymorth mawr gyda'r paratoi. Braff yw gweld gwaith caled yr wythnosau diwethaf wedi talu ar ei ganfed. Gwerthfawrogir ymroddiad a ffyddlondeb yr aelodau i'r ymarferion a hefyd cefnogaeth a chydweithrediad parod y rhieni. Edrychwn ymlaen at ein hymwelriad ag Abertawe. Pob lwc i bawb.

Teyrnged: Gweinidogaeth y Parchedig Elwyn Jenkins

Nos Fercher 20 Ebrill trefnwyd cyfarfod arbennig yn festri Shiloh Llambed i ddiolch i'r Parchg. Elwyn Jenkins ar ei ymddeoliad am ei wasanaeth dros bron i dair blynedd ar ddeg yn yr ardal. Yn 1998, wedi ymddeol ar ôl 28 mlynedd yn weinidog yn Aberystwyth derbyniodd alwad i fugeilio Shiloh gyda Maesffynnon, Llangybi a Salem, New Inn. Yn y flwyddyn 2000 ymunodd Soar, capel yr Annibynnwyr yn y dref â'r ofalaeth a sefydlwyd gweinidogaeth bro.

Yr oedd y cyflwyno yng ngofal Twynog Davies ysgrifennydd Shiloh. Yn ei eiriau o werthfawrogiad a chyflwyno tysteb ar ran aelodau Shiloh, soniodd am ei atgofion o'r gweinidog ar yr aelwyd yn ei hen gartref a chyfeiriodd hefyd am y cyfnodau y bu'r gweinidog ym Mrynaman ac yn Aberystwyth a'r ddau lyfr a gyhoeddwyd ganddo. Yr oedd urddas arbennig yn nodweddu gwasanaeth Mr Jenkins ac yr oedd ei gonsern dros y deillion yn Affrica a phlant y stryd yn Ne America yn aros yn gyfrifoldeb gan aelodau.

Mrs Sallie Davies a gyflwynodd dysteb ar ran Maesffynnon. Gwaith diflino Mr Jenkins, ei gyfeillgarwch a'i hiwmor oedd yn nodweddu ei wasanaeth. Yr oedd aelodau Salem eisoes wedi cyflwyno tysteb ond cafwyd teyrnged cynnes iawn ar eu rhan o atgofion dros 12 mlynedd gan Mrs Meryl Rowlands. Gwerthfawrogiad o wasanaeth fel rhan o'r ddilyniant yn y weinidogaeth yn Soar oedd yn rhan o deyrnged Aneurin Davies a gyflwynodd dysteb ar ran aelodau Soar. Cyflwynwyd tegeirianau i'w rhoi i Mrs Jenkins gan Mrs Sulwen Morgan.



Twynog Davies, Sheilo - Meryl Rowlands, New Inn, Sallie Davies, Maesffynnon ac Aneurin Davies, Soar


Paratowyd te a chacennau gan y gwragedd, ac ar gyfer yr achlysur cafwyd cacen arbennig gyda'r eisin wedi ei addurno gyda lluniau'r capeli yn yr ofalaeth.

Diolchodd Mr Jenkins i bawb. Yr oedd ei atgofion dros ei yrfa o flynyddoedd hapus a chyfeillgarwch yn arbennig iawn iddo - y cyfan -tu hwnt i eiriau.

Sêr y Dyfodol!

Cafwyd diwrnod arbennig iawn ar y 10fed o Ebrill pan aeth Clwb Ieuenctid Rygbi Llambed i lawr i chwarae yn Nwrnament Rygbi Ieuenctid y Tymbl.

Roedd yna dîmoedd o Gefneithin, Llanelli, Tymbl, Bynea, Burry Port, Llanyddyfri, Cydweli, Llandybie, Rhydaman, Gowerton, Cwins Caerfyrddin a Phontyberem yn cystadlu'n fwrdd am gwobr y tim gorau o dan 7,8,9,10 a 11. Cafwyd llwyddiant esgubol pan ddaeth tîm o dan 9 a 10 yn fuddugol gan ennill tîmoedd mawr y de! Ni gollwyd un gêm gan y tîm o dan 10! Gwelwyd yn y llun Robin McBryde - un o hyfforddwyr Cymru gyda'r tîm o dan 10. Ef oedd yn dosbarthu'r gwobrau. Diolch i'r hyfforddwyr a'r rheini am ei cefnogaeth - mi roedd yn ddiwrnod ffantastic! Edrychwn yn awr i trnament Llambed ar y 8fed o Fai. - Croeso i bawb i ddod i gefnogi ein ieuenctid. [Gweler y llun ar dudalen 2].



Y Parch Elwyn Jenkins, cyn weinidog Soar a Sheilo Llambed ar noson lansio ei lyfr diweddaraf 'O Ddesg y Gweinidog' - llyfr o fyfyrddodau a straeon digri a difri - yn Festri Sheilo. Yn y llun gwelir Mr Jenkins yn arwyddo'i lyfrau.



Cynhaliwyd Sioe Feirch Llambed ar ddydd Sadwrn Ebrill 23ain ar Ystâd Llanllyr, Talsarn. Pencampwr y Sioe ydoedd YRALLT MAY DAY SURPRISE, gwelir Llywydd y Sioe Peter Jones, Bridfa Menai yn cyflwyno y cwpan i Marged Simons o Arberth.



Tŷ Hafan oedd yr elusen "Coop" Llanbedr Pont Steffan yn ystod 2010. Ar ddydd Mawrth cyflwynwyd sic o £5200 i Frank Ady o Dŷ Hafan gan Mike Savory Rheolwr y siop ac hefyd rai o staff y Coop sef Dawn Rees, Victor Edwards a Lucy Smith.

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Davi Evans

Oed: 24

Pentref: Gorsgoch

Gwaith: Dunbia

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Na, cof gwael da fi.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Cerdded lawr grisiau un bore heb dillad arno, cael diod a mynd nôl i gwely gyda pawb lawr llawr a meddyliais i taw breuddwyd oedd e.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Chi methu bwyta "mud pies"

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Offspring

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Yn dalach

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar gefn y beic modur.

Pwy yw dy arwyr?
Evil Kenevil

Y peth gorau am yr ardal hon?
Defaid.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Ffermwyr defaid.

Pa mor wyrdd wyt ti?
DIM!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Celwyddgar

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Ar y car, rhwydd

Beth sy'n codi ofn arnat?



Pilipala

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Dim yn cofio, fi wastad rhi feddw

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Gyda bron wythdeg o gwestiwnau - rwyn grac nawr!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Ar swing yn y parc

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Cysgu

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?
I ddod off y beic am 50mph, bwrw wal a codi heb marcin

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
I gadw'n gryf? Dim, rwyn berfaith

Beth yw barn pobl eraill amdanat

ti?

Bod fi n person hapus a llawn bywyd

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Peugeot 205 gti

Beth yw dy hoff wisg?
Wig a ffroc

A'th hoff adeilad?
Tafarn

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Pamela Anderson

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Unrhywbeth

Beth yw dy ddiod arferol?
Cwrw

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Llyfrau

Beth yw dy hoff arogl?

Mam yn coginio cinio dydd sul.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
739

Hoff gân ar dy ipod?
Spice girls

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
fringe

Sawl teest y dydd wyt ti hala?
40-50

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Rhodri o security

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Finding nemo

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Y whip ar handcuffs

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Disco

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Fin gobeithio bod na ddim, fi moyn siawns i gysgu

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Cysgu, rwyn hoffu cysgu

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Y car

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Yr wyddfa, Ynys Mon â mynyddoedd Brecon

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Seland Newydd, Japan, Russia

Testun cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Alison Jones,
Llanddewi Brefi

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				1		4	5
	5		7	4	3		8
3			5				7
8						1	
			8	2	9		
		5					2
2					8		3
5		8	2		7		9
1	6		3				

Atebion Swdocw mis Ebrill:

Longyfarchiadau i **John Jones, Y Bwthyn, Llambod** a diolch i bawb arall am gystadlu - Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Eirlys Davies, Eurfan, Llanybydder a Shirley Walker, 8 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

9	1	4		3	2	5	6	8	7
5	3	6		4	7	8	2	9	1
8	2	7		1	9	6	3	4	5
7	5	1		2	8	4	9	6	3
6	9	8		5	1	3	7	2	4
3	4	2		7	6	9	5	1	8
2	7	9		8	3	1	4	5	6
4	8	3		6	5	2	1	7	9
1	6	5		9	4	7	8	3	2

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO


**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

Llanllwni

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mark a Tracy
Jenkins, Glas-y-dorlan ar enedigaeth
ei mab Guto Rhys ar ddechrau'r mis.
Pob bendith i'r dyfodol.

Diwrnod Hwyl Llanllwni 11eg o Fehefin 2011

Mae yna groeso i chi ddod i
ymuno yn yr hwyl a'r sbri yng
Nghae Glanafon (tu cefn i'r Belle
Vue) a'r y 11eg o Fehefin 2011.
Mae yna amryw o weithgareddau
wedi eu trefnu yn cynnwys, Castell
Bownsio, Stondin Cacennau, a
phaentio gwynebau. Bydd Sali Mali
yno i ddarllen storïau i'r plant a
bydd yna amryw o weithdai ar gael
megis sesiwn crefft. Bydd yna fwy o
fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Clonc.
Rhennir elw'r diwrnod rhwng Ysgol
Feithrin Llanllwni ac Ysgol Gynradd
Eglwys Llanllwni.

Bingo Pasg Cylch Meithrin Llanllwni

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi
a chyfrannu gwobrau ac arian
at Bingo'r Pasg Cylch Meithrin
Llanllwni ar yr 11eg o Ebrill yr
ydym yn ddiolchgar dros ben am
eich cefnogaeth a gwnaethpwyd
elw o £633 tuag at Cylch Meithrin
Llanllwni.

Ysgol Llanllwni

Treuliodd yr adran iau ddiwrnod
addysgiadol yn ymweld â hen
adeiladau yn ardal Llanllwni a
Maesycrugiau.

Cerddodd plant blwyddyn 2 ac
1 i Gapel Nonni lle bu'r Parchedig
Rheinallt Davies yn rhoi hanes
y capel i ni. Dysgwyd lawer am
sut roedd y capelwyr yn addoli
mewn stabl ar fferm Maesnonni
cyn adeiladu'r capel. Rydym yn
ddiolchgar i'r Parch Rheinallt
Davies am roi'r hanes mewn ffordd
ddealladwy.

Ar nos Wener 1af Ebrill
cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus
iawn yn yr ysgol. Cymerwyd
rhan gan blant yr ysgol, cyn-
ddisgyblion ac aelodau Clwb
Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Cafwyd
amrywiaeth o eitemau llefaru,
canu, actio a dawnsio. Plant
blwyddyn 6 arweiniodd y noson. Y
Llywydd oedd Mrs Greta Walters
o Llanfihangel-ar-arth a chafwyd

araith ddiddorol a phwrpasol ganddi
am ei phlentyndod a'i addysg yn
Ysgol Llanllwni. Diolchwn yn fawr
iddi am ei rhodd haelionus iawn
tuag at gronfa'r ysgol. Cyflwynwyd
blodau iddi gan Sioned Howells.
Cyflwynwyd y llywydd gan Caryl
Evans, cadeiryddes Pwyllgor Rhieni
a Ffrindiau'r Ysgol a rhoddwyd y
diolchiadau gan Mrs Nans Davies.
Ar ran yr ysgol cyflwynodd Joshua
Hamza rodd i Mrs Anne Thorne am
ei gwaith diflino o ysgrifennu sgript
y gân actol ac am wneud y propiau
a'i chymorth yn yr ymarferion.
Diolchwyd hefyd i Mrs Gwyneth
Davies am gyfeilio i'r gân actol ac i
Allen am fod ar y drymiau.

Llongyfarchiadau i'r gân actol am
ddod yn ail yn Eisteddfod y Sir yn
Pontrhydfendigaid yn ddiweddar.
Rydym wedi cael gwahoddiad i fynd
ymlaen i gystadlu y gân actol yn
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
yn Abertawe yn ystod gwyliau
Sulgwyn.

Bu chwech disgyblion yn cystadlu
yn nhrawsgwlad Sir yr Urdd yng
Ngheredigion yn ddiweddar. Da
iawn Sioned, Rhian Thomas, Daniel,
Max, Steffan a Ceris.

Treuliodd 18 o blant benwythnos
yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog.
Cawsant amser da yn gwneud
gwahanol weithgareddau a
chymdeithasu. Roedd y tywydd yn
fendigedig. Diolch i staff yr ysgol
a fu yno'n gwarchod yn ystod y
penwythnos.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr
yr ysgol am fis Ebrill:

£10 – 165 – Bethan Jones,

Gwelfro, Llanfihangel-ar-arth.

£5 – 179 – Ray Harries, Castle
View, Llanllwni.

£2.50 – 205 – Andrew Evans,
Rhoswen, Maesycrugiau.

£2.50 – 77 – Iestyn Harries,
Maesnonni, Llanllwni.

£2.50 – 178 – Tom & Ray Harries,
Castle View, Llanllwni.

C.F.F.I Llanllwni

Yn ystod wythnos hanner tymor
mis Chwefror wnaeth y clwb
cystadlu yng nghystadleuaeth
Hanner Awr Adloniant y Sir yn
Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Ar
ôl i 13 glwb gystadlu cyhoeddwyd
ar ddiwedd yr wythnos fod Clwb
Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cipio
yr ail wob. Llongyfarchiadau
hefyd i Owain Davies ac i Rhian
Davies am gipio y gwobrau am yr
actorion gorau 18 oed ac o dan.
Llongyfarchiadau i holl aelodau y
clwb!! Ddiolch i bawb a helpwyd
allan mewn unrhyw modd i sicrhau y
llwyddiant yma.

Braf oedd gweld neuadd Ysgol
Gynradd Gymunedol Cae'r Felin,
Pencader yn llawn ar nos Wener 4
Mawrth pan wnaeth y clwb cynnal
cyngerdd yn dangos ei doniau mewn
eitemau di-ri. Diolch i llywyddion y

noson sef Mr a Mrs A Davies, Gelli
Aur, Llanybydder.

Llongyfarchiadau i Ifor Jones a
fuodd yn cynrychioli y Sir ar lefel
Cymru yn Llanellwedd dydd Sadwrn
26 Mawrth yn y gystadleuaeth Siarad
Cyhoeddus Cymraeg dan 14 oed. Ar
ôl cystadlu brwd cyhoeddwyd bod
tîm Sir Gâr yn cipio y wobr gyntaf
yn y gystadleuaeth yma. Da iawn
ti!

Ar ddydd Sadwrn yr 2il o Ebrill
gwnaeth aelodau'r clwb gystadlu
yn Niwrnod Gwaith Maes y Sir. Ar
ddiwedd y dydd, braf oedd clywed
taw Anwen Jones oedd yn cipio y
teitl 'Stockman Iau' am y flwyddyn
sydd i ddod. Llongyfarchiadau
mawr i ti!! Siôn Evans, Meryl
Davies, Daniel Joynson a Betsan
Evans a fu'n brysur eleni yn
creu arwydd i hysbysebu y rali
lle ddaethom yn drydydd. Siales
newydd oedd yn gwynebu'r aelodau
eleni wrth iddynt gymeryd rhan yn
y gystadleuaeth dawnio jazz. Yr
aelodau a gymerodd rhan oedd Ffion
Rees, Betsan Jones, Catrin Evans,
Meryl Davies, Siôn Evans a Aled
Jones. Bu'r tim yma yn ffodus i fynd
ymlaen a chynrychioli'r Sir ar lefel
Cymru. Da iawn i bawb wnaeth
gystadlu a dod a enw Llanllwni i'r
brig.

Trip i Drallwng oedd yn
gwynebu'r aelodau nesaf a
gymerodd lle ar ddydd Sadwrn
yr 16 o Ebrill. Dyma llond bws
mini yn mynd i gystadlu a
chefnogi yn Niwrnod Gwaith
Maes Cymru. Cymerwyd rhan yng
nghystadleuaeth dawnio jazz lle
cafwyd hwyl a sbri yn ymarfer tuag
ato tra bu Anwen yn brysur yn barnu
stoc.

Diolch

Dymuna Gary ac Eirlys, Cwmderi
ddiolch i bawb am yr holl gardiau,
rhoddion a dymuniadau da ar
enedigaeth Gwennan Lloyd, chwaer
fach i Alwena.

Cwmsychpant

Capel-y-Cwm

Cynhaliwyd Gymanfa Ganu yr
Undodiaid yng Nghapel Pantydefaid
ar ddydd Sul, Ebrill 10fed. Roedd
tyrfa da yno yn yr oedfa prynhawn
a'r hwyr. Bu Owain Jones, Lois
Jones a Beca Jenkins yn darllen yr
emynau allan.

Yng Nghapel y Cwm oedd lleoliad
ein Cymanfa Bwnc eleni.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Penrheol
ddiolch o galon i bawb am y pentwr
cardiau a anrhegion a dderbyniodd ar
achlysur ei phenblwydd arbennig yn
ddiwedd.





Pedwar o rhedwyr y clwb yn teithio i Lundain i gystadlu yn y 'Virgin London Marathon' a pob un ohonynt nôl dan pedair awr. Glyn Price yn gorffen mewn 2 awr 54 munud a 11 eiliad, Michael Davies 2 awr 54 munud 22 eiliad, Carwyn Thomas 3 awr 18 munud 20 eiliad a Michael Palmer 3 awr 59 munud 55 eiliad.



Dyma lun o Glyn Price, Carwyn Thomas a Michael Davies ar ddiwedd marathon Llundain. Yn absennol o'r llun mae Michael Palmer.

Ras 10K Abergwaun a Glyn Price yn gorffen yn 2il 36 munud 34 eiliad, ac yn ennill y categori dynion 40, 4ydd a 2il dynion agored Gethin Jones 38 munud 26 eiliad, 5ed a 1af dynion 60 Richard Marks 38 munud 51 eiliad, 6ed a 3ydd dynion agored Eric Rees 40 munud 29 eiliad, 7fed a 2il dynion 40 Huw Price 40 munud 40 eiliad, 8fed Simon Hall 41 munud 2 eiliad, 19fed a 1af merched agored Sian Roberts-Jones, 46 munud 41 eiliad, 26ed Lyn Rees 51 munud 5 eiliad.

Dawn Kenwright yn ennill y categori vet 55 yn ras Coniston 14+ (16.7 o filltiroedd) mewn 2 awr 16 munud, yn ardal y llynnoedd, a Caryl Davies yn gorffen ras fynydd Sugar Loaf yn Abergfennin mewn awr a 19 munud.

Cofiwch am ras Sarn Helen 16.5 o filltiroedd ar Mai 15 o glwb rygbi Llambod, ras plant am 10.30 yb ac oedolion 11yb, am rhagor o fanylion ffoniwch Lyn Rees ar 01570 434 244, ac Mai 20 ras y Llychau 5K am 6.30 – ffoniwch David Thomas 01558 685 926.

Llangybi

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Ebrill 20fed yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Lettie Vaughan. Y wraig wâdd oedd Mrs Megan Richards ac fe gawsom noson ddiddorol iawn yn ei chwmmi pan fu yn hel atgofion o'i gwyliau a dreuliodd yng Nghnada rhai misoedd yn ôl.

Ail etholwyd Lettie Vaughan fel Llywydd, Gwyneth Evans fel Is-Lywydd, Gwyneth Jones fel trwysorydd a Mair Spate fel Ysgrifennydd. Rhoddwyd pleidlais o werthfawrogiad am noosn mor ddiddorol a chyfle i weld nifer o luniau bendigedig gan Gwyneth Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Eleanor Evans ac Iris Quan ac fe'u henillwyd gan Deborah Jones a Lettie Vaughan. Disgwylir Emyr Llywelyn i'n hannerch yn y cyfarfod nesaf ar Fai 18fed. I ddiwedd y noson cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei rhoddi gan Margaret Davies Jones a Mair Spate.

Hamdden

Ar Ebrill 1af aethpwyd am drip dirgel wedi ei drefnu gan Sally Davies. Aberteifi oedd diwedd y daith ac fe ymwelwyd a'r Academi lle y gwelwyd y gardigon anferth a deniadol iawn 'roedd pobl Aberteifi wedi ei greu i ddathlu 900 mlwyddiant y dref. Bu dros 300 o weithwyr yn brysur yn gwneud y gwaith dan oruwchwiliaeth Lisa Hellier a oedd yn gyfrifol am y prosiect a gyda hi cawsom hanes y gwahanol bethau oedd yng nghlwm a'r fenter. Siopa wedyn am ychydig ac yna ymlaen i Frynhoffnant lle gawsom de bendigedig yn 'New Inn'. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i staff y New Inn am ei croeso a'r bwyd blasus ac i'r trefnydd gan Dilys Godfrey a Maureen Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf yn ysgol Y Dderi ar y 6ed o Fai am ddau o'r gloch pryd y disgwylir anerchiad o Arddio. Croeso i aelodau newydd.

Llanwnnen



Mr Siôn Mason-Evans, Ysgol Llanwnnen yn derbyn ei dysteb oddi wrth Mr Stephen Cooper, Cadeirdd y Llywodraethwyr a Mr Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg Ceredigion.

Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd yng Nghaerfyrddin.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Mary a Gareth Davies, Rhosycoed ar ddathlu eu Priodas Aur ar ddechrau Ebrill. Iechyd da i chi i'r dyfodol.

Ŵyr newydd

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Sian ac Ieuan Davies, 15 Bro Grannell ar enedigaeth ei ŵyr cyntaf Guto, mab bach i Tracy a'i gŵr Mark yn Llanllwni.

Diwedd Cyfnod

Daeth cyfnod athro yn Ysgol Gynradd Tregaron i ben i Mr Peter Ebbsworth, Brynamlwg ar ddiwedd Tymor y Pasg. Bu yn gweithio yno am chwe blynedd ac ar ddechrau Mis Mai fe fydd yn cychwyn fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Gynradd Llanwnnen. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o Sefydliad y Merched Llanwnnen ar nos Lun, 4ydd o Ebrill. Estynnodd y Llywydd Mrs Gwen Davies longyfarchiadau i Mr & Mrs Gareth a Mary Davies ar achlysur dathlu ei Priodas Aur ac i Mr a Mrs Aeron ac Ann Hughes, Cwmhendryd ar enedigaeth ei wyres fach gynta – merch fach i Caryl a Ben, Pontfaen.

Croesawyd ein tri gwestai gwadd sef Mrs Janet Evans, Mr Twynog Davies a Mr Stan Evans. Ein trysorau eu cyflwyniadau a Mrs Stan Evans oedd y siaradwr cynta'. Soniodd am ei ddyddiau cynnar yn Ysgol Llanwnnen cyn symud gyda'i rieni i'r Waun, Llanybydder. Trysor o atgofion plentyndod. Trysor arall i Mr Stan Evans oedd Geiriadur Saesneg – anrheg gan Siôn Corn ar ei ymweliad â stesion Llanybydder, y cwbl yn ddiolch o Dr Tunn – doctor a chymeriad adnabyddus iawn yn Llanybydder ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Casgliad o dapiau a recordiau "Côr Telyn Teilo" oedd gan Mrs Janet Evans a chafwyd ambell i hanes yn

difyr ganddi ar yr amser y fu'n aelod o'r Côr hwnnw gyda'i arweinydd Mr Noel John. Datganiad o 'Signature Tune' y Côr sef "Dyffryn Tywi" oedd ei dewisiad i glo ei chyflwyniad.

Roedd gan Mr Twynog Davies hefyd atgofion annwyl iawn o'i fagwraeth yn Nyffryn Tywi ac yn drysor mawr iddo oedd Pedol o waith ei dad ar ôl iddo ddychwelyd adre o'r Rhyfel Byd cynta. Soniodd hefyd am y pedwar côr bu yn arweinydd arnynt a chyplwsyd ei gyflwyniadau gyda datganiadau o'r Corau hynny gan orffen gyda 'Cân Osian' gan y grŵp Cwlwm.

Diolchodd Gwen Davies i'r tri gwestai am eu cyflwyniadau diddorol a ddaeth a thrysorau o atgofion i lawer un o'r aelodau. Noson a erys yn y côf am amser hir.

Enillydd cystadleuaeth y mis oedd Mrs Ceinwen Roach. Edrychwn ymlaen yn awr am y trip ar Ddydd Mawrth, 10fed o Fai i Swyddfa'r Cynulliad yn Aberystwyth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mary, Haydn a Manon, Lowtre yn dilyn eu profedigaeth o golli modryb annwyl ym mherson Mrs Nell Jones o Dregaron.

**Dydd Sul 29 Mai 2011
am 2.00**

Capel y Groes, Llanwnnen

Dyma wahoddiad arbennig gan blant yr Ysgol Sul.

Gwasanaeth i ddiolch am roddion ac i ddathlu Sain, Llun a Lliw a chyfle i balu a phlannu

Dewch i ymuno a llawenhau am y newidiadau sydd wedi digwydd y tu fewn a thu fas i'r capel

Bydd Cadeirydd
Cyngor Sir Ceredigion
y Cyng Catherine Hughes,
Tregaron yn bresennol hefyd.
Fe'ch welwn yno. . . gobeithio!

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr

Cafwyd hatric yn Eisteddfod Ddawns y Sir eleni gyda Charlotte Saunders yn cipio'r wobr gyntaf am ddawnsio disco unigol, y grŵp dawnsio disco yn cipio'r cyntaf a'r grŵp cyfrwng cymysg hefyd yn llwyddo i serennu. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ym mis Mai. Llongyfarchiadau hefyd i'r grŵp dawnsio gwerin blynyddoedd 5 a 6 ar gipio'r ail wobr. Diolch i Sally am eu hyfforddi, i Anita am greu'r gwisgoedd ac i Wendy am ei chymorth. Hefyd i Sandra ac Amanda am gyfeilio.

Cynhelir cyngerdd o bigion yr Urdd yn neuadd Ffynnonbedr ar Nos Fawrth Mai 17 am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i ddod i gefnogi. Bydd yr elw yn mynd tuag at waith yr Urdd yn yr ysgol.

Cynhaliwyd noson agored i'r plant a fydd yn dechrau yn y Meithrin ar ôl Pasg. Diolch i staff yr uned am baratoi.

Cafwyd llwyddiant yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd a gynhaliwyd yn Llangrannog yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhedeg a dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:- Ruth Davies 2ail, Lauren Hill 6ed, Iestyn Owens 4ydd, Grace Page 1af, Sam Brummeld 10fed, Tanwen Owens 8fed, Thomas Willoughby 7fed, Daniel Lewis 10fed. Diolch i Mr John am drefnu.

Aeth nifer o'r disgyblion hefyd i redeg yn Nantyci Caerfyrddin yng nghystadleuaeth trawsgwlad Dyfed a da iawn i bob un ohonynt. Llongyfarchiadau arbennig i Grace Page ar ddod yn ail, Ruth Davies yn bedwerydd, Iestyn Owens yn 12fed a thîm blwyddyn 4 sef Iestyn Owens, Dewi Hobbs a Bryn Jones ar ddod yn drydydd. Aeth Grace ymlaen i redeg yn Abertawe yn y gystadleuaeth Dyfed a Morgannwg a dod yn unfed ar bymtheg. Tipyn o gamp.

Aeth parti o ddisgyblion yr ysgol i ganu emynau Gerald Morgan yng Nghapel Soar gan uno gydag ysgolion y cylch. Diolch i Mrs Carys Lewis am baratoi'r plant.

Rydym yn ffodus bob blwyddyn bod Cyngor y Dref yn rhoi disgo i'r plant a lluniaeth ysgafn. Cafwyd prynhawn difyr o ddawnsio a mwynhau yng nghwmni Harold. Diolch yn fawr i Gyngor y Dref am eu haelioni.

Aeth criw o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd. Cyrhaeddodd tim y bechgyn y rownd yr wyth olaf a gwaneth y merched yn dda hefyd. Da iawn chi Tomos Jones, Iestyn Evans, Osian Jones, Sam Brummeld, Robert Jenkins, Tom Sawyer, Robert S, Leon Holmes, Thomas Willoughby Tanwen Owens, Charlotte Saunders, Ffion Harris Green, Elen Lewis, Cerys Lewis, Lionie Mason, Lois Price, Grace Page, Georgie Hines a Jordan Evans. Diolch i Mr Wyn John a Miss Natalie Jones am hyfforddi.

Roedd tipyn o gyffro yn yr ysgol wrth i grŵp o blant gael y cyfle i arddangos dillad yn y Sioe Ffasiynau a drefnwyd yn neuadd yr ysgol Uwchradd. Roedd Grace, William, Ffion, Logan, Catrin, Nathan, Iestyn, Leon, Mererid, Alecia, Arthur a Daniel yn edrych yn ffantastig.

Cofiwch am y sêl cist car nesaf a gynhelir ar ddydd Sadwrn Mai 7fed yn Ysgol Ffynnonbedr.

Bu dau ddisgybl o flwyddyn 6 sef Rhys Jones a Harry Miller yn rhan o gyfweiliad a ddigwyddodd yn y Sector Uwchradd yn ddiweddar. Roedd y ddau yn frwdfrydig iawn ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 diwrnod yn trafod peryglon cyffuriau ac alcohol yn ddiweddar. Cynhaliwyd diwrnod o hwyl trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Bu'r disgyblion yn chwarae gemau, darllen, dawnsio ac actio a diolch am gymorth Cerian Phillips, Mari o Arad Goch a disgyblion o'r sector Uwchradd.

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Miss Davies, Miss Pugh a Miss Anita am ei hymweliadau a ysgolion allan yn Ffrainc. Roedd y plant yn llawn brwdfrydedd wrth astudio'r lluniau ac wrth ddysgu am y system addysg allan yn Ffrainc. Diolch i'r merched am y cyflwyniad diddorol.

Mae gan Daniel Edwardes, 12 Dewi, gysylltiadau teuluol yn Sendai, Japan. Er mwyn codi arian i helpu meithrinfeidd yn yr ardal, trefnodd raffl a bore coffi ar ddydd Gwener, Mawrth 25ain gyda help ei gyd-aelodau yn y Chweched. Yn ogystal, cafodd disgyblion a staff wisgo jîns i'r ysgol am y dydd, gan dalu 50c - £1.00 am wneud. Bu aelodau 9 Dewi o gymorth mawr, gan gyfrannu nifer o gacennau a helpu gyda'r gwerthu a'r gweini. Codwyd cyfanswm o £903.63. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Y Gornel Alwedigaethol - Teithio a Thwristiaeth, Taith Caerdydd - Bu disgyblion blwyddyn 10 a 12 yn ymweld â Chaerdydd er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer eu gwaith cwrs. Aethant i weld nifer o atyniadau'r ddinas gan gynnwys Canolfan y Mileniwm a'r Senedd ym Mae Caerdydd. Un o'r uchafbwyntiau oedd taith dywys o amgylch Stadiwm y Mileniwm.

Ein gwaith cwrs ym mlwyddyn 13 yw trefnu ymweliad. Eleni, fe wnaeth y grŵp, sef Rhian Davies, Laura Janes, Alaw Williams, Brynmor Jones a Nessim Aroussi benderfynu fynd i Lundain am ddwy noson. Dechreuodd ein taith yng ngorsaf drên Caerfyrddin a chyrraeddodd ni ein gwesty yn Kensington ganol prynhawn. Ar ôl ychydig amser ar Stryd Oxford,

Kensington ganol prynhawn. Ar ôl ychydig amser ar Stryd Oxford,



Bu disgyblion ac aelodau staff o Ganolfan y Bont yn ymweld â theatr y Grand yn ddiweddar i fwynhau perfformiad o 'Eira Wen a'r saith corrach.'

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi ennill gwobrau nofio Rockhopper:- Natalie Berrell (lefel 2); Zac Griffiths (lefel 4); Joshua Hemming (lefel 3); Catrin King (lefel 1)

Llongyfarchiadau hefyd i Trevor Rowlands a Mathew Jeremiah ar gyrraedd lefel 2 yn y 'Water Skills Award'.

Bu'r disgyblion canlynol yn cystadlu mewn gala nofio yn Aberystwyth yn ddiweddar:- Natalie Berrell (3ydd yn y ras 9 metr); Joshua Hemming (3ydd yn y ras 9 metr); Mathew Jeremiah (3ydd yn y ras 25 metr); Trevor Rowlands (2il yn y ras 25 metr);



Bu'r disgyblion canlynol yn cystadlu yn rownd gyntaf y gystadleuaeth goginio 'Cogurdd' yn yr ysgol ym mis Chwefror:-

Collette Evans 9N; Emma Jones 9N; Kate Jones 9N; Stephanie Davies 8P; Arwel Jones 8P; Lauren Evans 7D a

Ffion Jenkins 7D.

Roedd y safon yn uchel iawn eleni ac fe wnaeth pob un o'r cystadlwyr fwynhau'r profiad yn fawr. Y disgyblion buddugol oedd Kate Jones 9N a Ffion Jenkins 7D,

Llongyfarchiadau hefyd i Elinor Jones 10P sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn y grŵp oedran B1 10 - 13 ar yr un diwrnod.

Pob lwc i chi gyd!

aethom lawr tuag at Sgwâr Trafalgar a Piccadilly Circus. Y diwrnod canlynol, aethom o amgylch Llundain ar fws to agored ac fe ymwelon ni â Madame Tussauds a'r London Dungeons. Teithiom ar gwch i'n hatyniad olaf am y diwrnod, y 'London Eye'. Ar y bore olaf, ymwelwyd â'r Natural History Museum cyn dychwelyd i Gaerfyrddin ar y trên. Cafodd pawb amser grêt ac edrychwn ymlaen i fynd yno eto.

Cynhaliwyd cynhadledd ddeuddydd i ddisgyblion bl 10 eleni eto. Pwrpas y gynhadledd oedd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael, edrych ar broblemau iechyd a diogelwch o fewn gwahanol sefydliadau, yn ogystal â datblygu sgiliau, megis gweithio mewn tîm a datrys problemau.

Ar y diwrnod cyntaf cafwyd 'Diwrnod Mentergarwch' o dan arweiniad Gyrfa Cymru. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn meddwl am logo a slogan am gynnrych o'u dewis - efallai welwn ni rhai ohonynt ar 'The Apprentice' rhywbryd yn y dyfodol!

Ymweld â busnesau Abertawe oedd trefniadau dydd Mercher. Fe ymwelwyd â Chanolfan Hamdden LC2, Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Glannau Abertawe, Theatr y Grand, gwesty'r Marriott a swyddfeydd Admiral.

Cafwyd dau ddiwrnod hwylus a buddiol a diolch i swyddogion Gyrfa Cymru am eu gwaith paratoi ac i'r cwmnïau am eu croeso.

Ym mis Chwefror, bu myfyrwyr bl 12 i gyd allan am wythnos o brofiad gwaith. Roedd y lleoliadau yn amrywio o siopau lleol i ysgolion cynradd, ysbytai ac hyd yn oed Maes Awyr Caerdydd! Cafodd pawb amser arbenning o dda ac roedd yr adborth gan gyflogwyr yn gadarnhaol iawn, gyda nifer

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

yn gwneud sylwadau positif iawn am aeddfedrwydd y disgyblion, eu parodrwydd i weithio a'u cwrteisi. Bydd y profiad yn bendant o fudd iddynt yn y dyfodol. Diolch felly i'r cyflogwyr ac i Gyrfa Cymru am eu cydweithrediad wrth drefnu'r lleoliadau.

Yn ystod pythefnos Masnach Deg cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr ysgol i godi ymwybyddiaeth disgyblion a staff am nwyddau Masnach Deg.



Bu nifer o ddisgyblion o flynyddoedd 7, 8 a 9 ynghyd â disgyblion Ysgol Ffynnonbedr yn addurno byntin o gotwm Masnach Deg. Roedd y weithgaredd yn rhan o ymgais Sefydliad Masnach Deg i dorri record y byd am y byntin hiraf erioed. Da iawn chi am adael eich marc!

Agorodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 siop ffrwythau Masnach Deg yn ystod amser egwyl; a bu disgyblion o flynyddoedd 12 a 13 sy'n mynd ar alldaith Camre Cymru i Kenya yn gwerthu cacennau siocled Masnach Deg i ddisgyblion Ffynnonbedr. Blasus iawn!

Diolch hefyd i ddisgyblion 8 Pedr am gloi'r wythnos o ddigwyddiadau gyda gwasanaeth ysgol arbennig yn son am effeithiau cadarnhaol Masnach Deg ar gymunedau mewn gwledydd llai datblygedig.

Yn ystod y tymor bu aelodau o grŵp Seryddiaeth blwyddyn 10 yn tynnu lluniau anhygoel o galaethau, sêr a nifylau. Maent yn rheoli'r telesgopau mawr yn Haleakala, Hawaii a Siding Springs yn Awstralia gan ddefnyddio'r we. Gan ei bod hi'n nos yn y gwledydd yma, y mae'r disgyblion yn medru gwneud arsylwadau yn ystod amser ysgol. Y mae'r disgyblion wedi tynnu nifer fawr o luniau arbennig mewn lliw, a gellir eu gweld ar hysbysfwrdd yr Adran Wyddoniaeth. Y mae'r grŵp yn astudio Seryddiaeth yn eu hamser eu hunain ac mi fyddant yn sefyll eu haroliadau TGAU yn y pwnc yma ym mis Mehefin ar ôl blwyddyn yn unig. Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am eu hymdrech ardderchog:- Elinor Jones, Fflur Davies, Richard Davis, Edward Bransden, Kate Merrow-Smith, Lisa McCambridge, Daniel Sandomierski, Ryan Bennett, George Wagner, Sofia Morris, Alis Gwyther a Finn Humphrey.

Mae nifer o aelodau Blwyddyn 13 yn edrych ymlaen at gael mynd i'r Brifysgol ym mis Medi wedi iddynt dderbyn cynigion gan rai o brifysgolion gorau Prydain. Mae Elliw Dafydd, ein Prif Ferch, wedi derbyn cynnig i astudio cwrs Actio yn LIPA (Lerpwl) a chwrs Drama yng Ngholeg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd. Mae Elliw wrthi yn penderfynu ble y mae hi am astudio y flwyddyn nesaf - tasg anodd gan ystyried bod y ddau le yn rhagori yn y maes. Llongyfarchiadau hefyd i Lisa Moore sydd wedi derbyn gwobr deilyngdod gwerth mil o bunnoedd wedi iddi fod yn llwyddiannus mewn arholiad mynediad i Brifysgol Aberystwyth. Mae Lisa'n edrych ymlaen yn fawr at astudio Busnes yn y 'coleg ger y lli'. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion o Flwyddyn 13 sydd wedi derbyn cynigion i astudio mewn colegau a phrifysgolion y flwyddyn nesaf a phob dymuniad da iddynt yn eu haroliadau Lefel A.

Llongyfarchiadau hefyd i Carwen Richards, Bethan Hardy, Ruth Davies, Craig Richards a Richard Bracy a drefnodd sioe dalent ardderchog er mwyn codi arian ar gyfer eu taith i Kenya. Yn ystod y daith, bydd y disgyblion yma yn helpu gyda'r dasg o adeiladu Ysgol Uwchradd ar gyfer plant un o bentrefi Kenya. Cafwyd nifer o eitemau cofiadwy yn ystod y sioe dalent (gan gynnwys Mrs Stephens yn canu un o glasuron 'Abba'), ac Elin Hughes dderbyniodd y wobr gyntaf am berfformiad cerddorol gwefreiddiol.

Bu myfyrwyr Blwyddyn 12 yn ymgymryd â dau ymchwiliad yn ddiweddar. Ar gyfer eu hymchwiliad daearyddiaeth ddynol, fe edrychon nhw ar ansawdd amgylchedd gwahanol ardaloedd yn Llanbedr Pont Steffan, ac ar gyfer eu hymchwiliad daearyddiaeth ffisegol astudiwyd ymdreiddiad ar lethr ar Fferm Maesyllan, Llansawel drwy ganiatad caredig Mr a Mrs David Davies.



Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi ennill gwobrau yn ddiweddar yn yr 'UK Intermediate Maths Challenge'

Gwobr Arian - Toni Harding, Ceri Cranfield

Gwobr Efydd - Bodhi Evans, Finn Humphrey, Ellen Edwards, Richard Davis



Bu 90 o ddisgyblion blwyddyn 9 hefyd yn cymryd rhan yn y 'BP Maths Challenge' yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol, Charlie King, Kieran Hunter, Nathan Parks a Cory Lloyd.

Ar y 18fed o Ionawr, cynhaliwyd sesiwn Blas ar y Sbaeneg gydag athrawes Sbaeneg yr ysgol, Mrs Rhian James, wrth y llyw. Cafwyd sesiwn llwyddiannus iawn gyda nifer o Fl. 9 yn manteisio ar y cyfle i ddysgu ychydig o Sbaeneg cyn gwneud eu dewisiadau ar gyfer eu pynciau TGAU. Gymaint oedd llwyddiant y sesiwn gyntaf fel y penderfynwyd parhau a'r Sbaeneg am ddwy sesiwn ychwanegol. Enillwyr y cystadlaethau Sbaeneg oedd Aliya Azman, Kamil Drozd a Luigi Challis o Fl. 9.

Ar yr 8fed o Fawrth, cafwyd sesiwn Dysgu Pwyleg gyda Caleb Davies a Paulina Trybula. Cafwyd cyflwyniad diddorol am yr iaith gan Caleb, yna aethpwyd ati i geisio dysgu ychydig o Bwyleg. Roedd yn braf cael nifer o'r disgyblion Pwyleg yn bresennol i helpu'r rhai oedd am ddysgu eu hiaith.



Diolch am eu brwdfrydedd!

Llongyfarchiadau i aelodau o Glwb Trampolin Llamed, sydd wedi ennill cymhwyster Gymnasteg Prydeinig lefel 2 a 3. Cyflwynwyd tystysgrifau iddynt gan eu hyfforddwr Marlene Davies a chyd-lynydd 5 x 60 Arwel Jones. Cyflwynwyd siwmperi iddynt hefyd, wedi eu noddi gan 5 x 60.

Ffarweliwn ag aelod o staff, Mr Tim Evans ar ddiwedd y tymor. Fe fydd Mr Evans yn dechrau swydd newydd mewn ysgol yn Bangkok. Dymunwn bob lwc iddo.

Llongyfarchiadau i Miss Amy Edwards ar enedigaeth merch fach, Lily Hannah

Yn y Gegin gyda Gareth



“Pum pryd i bump diwrnod”

Mae rhai ohonoch wedi bod yn holi am rysetiau swper. Angen ychydig o ysbrydoliaeth ar ôl dod adre o'r gwaith i greu swper syml, ond blasus.

Beth am y casgliad yma felly. Mwynhewch Mis Mai.

O'r gegin,
Gareth

Spageti â garlleg

Coginiwch 12 owns o spageti, yna gwasgwch 4 ewyn o arllwg i 6 llwy fwrdd o olew'r olewydd. Ychwanegwch bupur a halen. Tynnwch y pasta o'r dŵr a chymysgwch gyda'r olew. Ychwanegwch lond dŵrn o spinoglys (spinach) a gwaenwch gyda chaws parmesan.

Pocedi Pitta

(1 cenhinen a 100gm o fadarch).

Coginiwch un pecyn o selsig. Meddalwch y genhinen wedi'i darnio a'r madarch mewn olew gydag ychydig o halen a phupur. Ychwanegwch 4 llond llwy fwrdd o creme fraiche. Sleiswch y selsig a llenwch y pocedi pitta â'r gymysgedd cennin a madarch. Gweinwch gyda mwstard.

Ffowlyn gydag almon

Twymwch llond llwy fwrdd o olew a ffiwch 50 gm o almon nes yn euraid mewn padell ffrio. Tynnwch o'r gwres. Torrwch 4 darn o frest ffowlyn yn sribedi a choginiwch am 5 munud. Cymysgwch 7 owns hylif sudd oren gydag un llond llwy fwrdd o finegr gwin gwyn a 2 llond llwy de o flawd india corn. (cornflour) a'i rhoi yn y badell ffrio. Mudferwch ar wres canolig am 5 munud. Ychwanegwch y cnau, cymysgwch a gweinwch ar wely o lysiau gwyrdd.

Golwyth bacwn gyda Saws Plwms

Cwarterwch 8 plwmsen gan waredu'r cerrig. Meddalwch mewn padell ffrio gyda 4 llond llwy fwrdd o fêl, 3 llond llwy de o 'root ginger', a hanner llond llwy de o fwstard. Coginiwch nes yn feddal.

Coginiwch 4 golwythen bacwn o dan y gril. Gweinwch gyda'r plwms a thatws newydd.

Kebab cig oen a salsa.

Torrwch dwy genhinen yn gylchoedd a choginiwch am 4 munud mewn dŵr berwedig. Torrwch 4 golwyth o gig oen yn giwbiau. Torrwch fadarch yn gwarteri. Torrwch dwy corbwmpen (courgettes) ganolig yn ddisgiau. Rhannwch y cynhwysion ar 8 sgiwer. Rhowch ychydig olew dros y cyfan a griliwch am 10 i 15 munud.

Torrwch 2 olewydden, tair tomato ac 1 winwsyn coch yn fân. Cymysgwch y salsa a gweinwch gyda'r Kebabs.

Clwb Clonc

Mai 2011

£25 rhif 124 :

Mrs Nans Evans,
Dolhardd, Drefach

£20 rhif 402 :

Manon Haf Richards,
Lowtre, Llanwnnen

£15 rhif 421 :

Mrs Ann Thorne,
Glennydd, Llanllwni

£10 rhif 2 :

Linda Bashford,
Cwmderi, Redhill, Surrey

£10 rhif 170 :

Mrs Delia Evans,
Beilicadarn, Llanwnnen

£10 rhif 67 :

Mrs Betty Davies,
Beilibach, Llanllwni

Os ydych yn ymateb i
hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth
y cwmni ymhle y
gwelsoch yr hysbyseb.

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Sul i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Mis y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Cywion y Gog

Mi ddaeth hi unwaith eto ... er mai 'fo' – neu 'fe' – y dylen i fod yn ddweud.

Mae'r gog wedi bod yn canu nerth ei chorn gwddw i fyny ar y bryniau uwchlaw Dyffryn Teifi – yn gynharach a phrysyrach nag arfer.

Dw i wedi rhyfeddu sawl tro at ei gallu hi i ddod yn ôl i'r un lle bob blwyddyn, tros filoedd o filltiroedd ... a gallu ei chywion i wneud yr un peth.

Ond dim ond yn ddiweddar, wrth wrando ar raglen radio, y sylweddolais i pa mor rhyfeddol – a dychrynlyd – ydi gallu'r aderyn.

Ond y busnes 'fe' yna i ddechrau. Mae'n debyg mai dim ond y ceiliog sy'n canu, a hynny er mwyn denu menyw a chadw'i diriogaeth yn glir rhag gwrywod eraill.

Does dim rhyfeddod yn hynny, ond mae gallu'r aderyn i ddodwy yn nythod adar eraill yn rhyfeddol. Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i'r iâr amseru ei dodwy hi yn berffaith, gwneud hynny'n gyflym ofnadwy a chreu wy sy'n dynwared wy'r aderyn arall bron yn berffaith.

Wedyn, mae'r cyw wedi ei greu i allu wthio unrhyw wyau eraill allan o'r nyth ac mae'n gallu dynwared sŵn cywion yr aderyn diniwed hefyd. Heb sôn am ffeindio'i ffordd yn ôl i Orllewin Affrica heb unrhyw help o gwbl.

Mae clywed y gog wastad yn creu cynnwrf; bellach, mi fydd yn creu mwy o syndod a pharchedig ofn hefyd. Mae'n gallu gwneud i'r aderyn diniwed fagu ei phlant trosti, a theimlo'n falch o wneud hynny.

... a'r Cyfrifiad

Dim cysylltiad o gwbl o gwbl rhwng hynna a'r ofn sydd gen i am ganlyniadau'r Cyfrifiad.

A chymryd y bydd yr ystadegau rhywle'n agos ati, mae'r neges ynglŷn â Chymreictod Ceredigion yn debyg o fod yn un dywyll iawn.

Mi fydd llawer yn dibynnu, wrth gwrs, a fydd myfyrwyr wedi cael eu cyfri yma, neu yn eu cartrefi. Os yma, mi fydd rhaid cadw hynny mewn cof wrth ddadansoddi'r ystadegau iaith.

Ond, ble bynnag y bydd y stiwdants yn swyddogol, mi fydd y Cyfrifiad yn dangos bod poblogaeth yr hen sir yma wedi newid yn ofnadwy eto.

Does dim angen gwario miliynau ar Gyfrifiad i wybod hynny. Bellach, wrth sefyll ar y stryd yn Llanbed, neu fynd i ambell siop ar benwythnos, mi allwch ddychmygu'n hawdd eich bod mewn rhan o'r Midlands neu'r Home Counties.

Mae rhywun yn dychmygu bod y mewnfudwyr yn gymysgedd o bobol sy'n dod yma i gael lle brafach i fod ar y dŵl, rhai'n gweithio neu'n sefydlu busnesau ac eraill yn ymddeol neu'n dod yma ar benwythnosau.

Tydi hi ddim yn amhosib y bydd y cyfri ar 27 Mawrth yn dangos bod mwyafrif trigolion swyddogol y sir bellach wedi eu geni y tu allan iddi – gan gynnwys mewnfudwyr fel fi – a hyd yn oed o'r tu allan i Gymru.

Y cwestiwn, wedyn, wrth gwrs, ydi sut y byddwn ni'n ymateb. Mi allwn ddigalonni, ac mi all fod yn esgus perffaith i awdurdodau cyhoeddus godi eu breichiau a dweud “does dim pwynt”.

Ar y llaw arall, mi all fod yn gyfle i fynd ati o ddifri i geisio gwneud rhywbeth am yr argyfwng. Mae yna ddigon o fywyd yn y byd Cymraeg yma i wneud hynny'n bosib.

Y peryg ydi meddwl gormod am ein problemau ni, yn hytrach na gosod her i'r bobol sy'n symud i mewn. Yma, yn fwy nag unman arall, y dylai'r Llywodraeth a Bwrdd yr Iaith a'u tebyg fod yn gwneud ymdrech i gryfhau'r iaith.

Mae hynny'n golygu mynd â'r iaith at y bobol sy'n symud i mewn; rhoi cyfle i blant sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgolion – a'u rhieni - i'w defnyddio hi. Os bydd yr hyn y gallwn ni ei gynnig yn well na dim arall sydd ar gael, mae gobaith na fyddan nhw'n gwrthod.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

C.Ff.I Ceredigion

Chwaraeon Dan Do

Ar y 18fed o Fawrth croesawyd yr aelodau i Neudd Llanddewi Brefi ar gyfer Chwaraeon Dan Do y Sir. Yno cawsom noson llawn sbri wrth i nifer o glybiau cystadlu. Yn dod i'r brig eleni oedd Mydroilyn ac yn cydradd 2il oedd Pontsian a Thregaron.

Siarad Cyhoeddus Cymru

Fe wnaeth swm niferus iawn o aelodau deithio i fyny i Llanfair ym Muallt ar ddydd Sul y 26ain i gystadlu yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg Cymru. Dyma'r canlyniadau yn yr adran Gymraeg:-

Dan 14:- Cadeirydd: Elen Davies, Pontsian 1af. Darlleneydd: Nest Jenkins, Lledrod 1af. Tim Ceredigion 2il.

Dan 16:- Cadeirydd: Sioned Davies, Llanwenog 3ydd. Diolcheydd: Meinir Davies, Llanwenog 3ydd. Tim Ceredigion 5ed.


Dan 21:- Cadeirydd: Gethin Hatcher, Llanwenog 2il. Cynigydd: Elin Jones, Llanwenog 1af. Eilydd i'r Cynigydd: Dafydd Morgan, Pontsian 2il. Gwrthynebydd: Enfys Hatcher, Llanwenog 1af. Eilydd i'r Gwrthynebydd: Carwyn Davies, Llangeitho 3ydd. Tim Ceredigion 1af. Hefyd gwnaeth Elin Jones dderbyn tlws Huw Evans am y perfformiad unigol gorau.

Dan 26:- Cadeirydd: Lowri Evans, Troed-yr-Aur 2il. Panel: 2il. Tim Ceredigion 2il.

Ar ddiwedd yr holl gystadlu daeth Ceredigion yn 2il yn yr adran Gymraeg.

Diwnod Maes

Yna fe ddaeth Diwnod Maes y Sir ar yr 2il o Ebrill yn Mart Castell Newydd Emlyn.



Clwb Llanwenog ddaeth i'r brig gan ennill cwpan Pantlleinau gyda 60 o farciau. Daeth Talybont yn ail gyda 59 o farciau a Bro'r Dderi, Llangwyrfon a Pontsian yn cydradd 3ydd gyda 57 o farciau. Cafwyd niferoedd rhyfeddol eleni yn y barnu stoc wrth i 54 o aelodau gystadlu dan 18 a 28 gystadlu dan 26. Dyma'r canlyniadau o'r diwrnod:-

Stocmon Iau:- T m: 1af Talybont, 2il Llangwyrfon, 3ydd Llanwenog. Unigolyn gorau: 1af Rhys Lloyd-Jones Llanddewi Brefi, 2il Dyfrig Williams Llangwyrfon, 3ydd Dewi Jenkins Talybont.

Stocmon Hŷn:- Tîm: 1af Pontsian, 2il Talybont, 3ydd Llanwenog. Unigolyn gorau: 1af Geraint Jenkins Talybont, 2il Dion Davies Pontsian, 3ydd Aled Llyr Thomas Talybont.



Taith Natur Iau:- 1af Sioned Davies a Meinir Davies Llanwenog, cydradd 2il Elin Gwyther a Cara Jones Bro'r Dderi, a Ifan Evans a Thomas Jones Pontsian.

Trimio Oen:- 1af Sian Downes Llangeitho, 2il Aron Dafydd Bro'r Dderi, 3ydd Steffan Davies Llanwenog.

Diogelwch Thrin a Thrafod Beic:- 1af Dewi Davies Llanddeiniol, cydradd 2il Dewi Uridge Bro'r Dderi a Osian Jones Felinfach.

Dawns Jazz:- 1af Llanwenog, 2il Llangwyrfon, 3ydd Pontsian.

Sialens ATV:- 1af Gareth Jenkins a Rhydian Evans Talybont, 2il Dyfan Jones a Rhodri Jones Llangwyrfon, 3ydd Rhydian James a Llion Davies Troed-yr-Aur.

Arddangosfa Ciwb:- 1af Llanwenog, 2il Llangeitho, 3ydd Pontsian. Effeithlonrwydd a Diogelwch:- 1af Troed-yr-Aur, 2il Llanwenog, 3ydd Tregaron.

Ffensio:- 1af Llanddeiniol, 2il Talybont, 3ydd Llanwenog.

Gala Nofio

Ar nos Wener yr 8fed o Ebrill daeth aelodau ynghyd i Bwll nofio Aberaeron ar gyfer cystadleuaeth Gala nofio'r Sir. Pontsian daeth yn fuddugol gan ennill cwpan sialens Esgairwen Fach, Mydroilyn, gyda Llanwenog yn 2il a Mydroilyn yn 3ydd. Gwnaeth Emlyn Lewis o glwb Pennant ennill cwpan her Alison Jones am y nofiwr cyflymaf ar y noson.

Diwrnod Maes Cymru

Teithiodd nifer o'r aelodau i fyny i Drallwng ar y 16eg o Ebrill ar gyfer cytadleuaeth Diwrnod Maes Cymru. Ar ddiwedd yr holl gystadlu daeth Ceredigion yn 2il. Dyma canlyniadau'r diwrnod:-

Tim Barnu Stoc Hŷn:- 4ydd. Sialens ATV:- 1af. Arddangosfa Ciwb:- 3ydd. Diogelwch Thrin a Thrafod Beic:- 1af. Ffensio:- 3ydd, Mi fydd tîm ffensio'r Sir yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol eto yn mis Gorffennaf.



Lansiwyd Calendr dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed mewn cinio Cadeiryddion y Sir yng Ngwesty Glynhebog, Llambled. Yn y llun mae - o'r chwith - Cyng a Mrs Haydn Lewis, Cadeirydd Cyngor Sir; Alwen Thomas, Cadeirydd y Sir; Eifion Morgan, Is-lywydd; Katie Ann, Dylunydd; Enfys Evans, Cadeirydd C.Ff.I. Cymru; Meilyr Hughes, Ffotograffydd; Mared Jones, Swyddog Datblygu; Manon Richards, Is-gadeirydd; Huw Davies a Bronwen Morgan, Llywydd y Sir.

Clwb 200 Mis Ebrill

1af:- Sian Phillips, Llanfihangel-ar-Arth. 2il:- Les a Ray Jenkins, Capel Dewi. 3ydd:- Dennis Davies, Pontsian

Dyddiadau i'ch dyddiaduron

28ain o Fai- Rali'r Sir, Pontsian

8fed o Fehefin- Athletau'r Sir, Llambled

10fed o Fehefin- Rygbi 7 bob ochr a Tafarn y Mis, Clwb Rygbi Aberaeron.

17eg o Fehefin- Tynnu'r Gelyn, Aberaeron

C.Ff.I Sir Gâr

Diwrnod Gwaith Maes

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes Flynyddol Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr ar Ddydd Sadwrn, 2ail Ebrill 2011 ar Fferm Tyllwyd, Felingwm ac ym Mart Ffairfach. Diolch i John a Hazel James, Fferm Tyllwyd ac hefyd i Gwmni Bob Jones Prydderch am ei caredigrwydd a'i cymorth parod. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth fenthycu stoc ac unrhyw anghenion tuag at y diwrnod a diolch arbennig i'r holl stiwardiaid o glwb C.Ff.I Llanfynydd am eu gwaith diflino. Diolch yn ogystal i'r holl feirniaid a phawb arall sydd wedi sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant.

Yng nghystadleuaeth stocman hŷn, bu cystadlu brwd am deitl Stocman y flwyddyn, gyda 16 yn cystadlu.

Yn fuddugol oedd:- 1af = Meinir Jones, Llanfynydd. 2ail = Dafydd Lewis, Dyffryn Cothi. 3ydd = Ffion Jones, Llanfynydd. 4ydd = Dylan Jones, Dyffryn Tywi.

Fe wnaeth 24 cystadlu yng nghystadleuaeth 'Stocman iau y flwyddyn'. Yn fuddugol oedd:- 1af = Anwen Jones, Llanllwni. 2ail = Ifan Phillips, Capel Iwan. 3ydd = Angharad Francis, Llanfynydd. 4ydd = Jordan Davies, Llanelli.

Yn y gystadleuaeth Codi Ffens bu 5 Clwb yn cystadlu ac Eirian Jones, Dylan Lewis a Dai Astington o Glwb Dyffryn Cothi ddaeth yn 1af gyda Rhodri Thomas, Jonathan Evans ac Aled Jones.

Bydd C.Ff.I Llanllwni yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yng Nghystadleuaeth y Dawnsio Jazz yn Niwrnod Gwaith Maes Cymru. Hefyd yn ystod Diwrnod Gwaith Maes y Sir cynhaliwyd Cystadleuaeth i gynllunio a pheintio Arwydd i hyrwyddo Rali C.Ff.I Sir Gâr. Llongyfarchiadau mawr i C.Ff.I Llanllwni a ddaeth yn 3ydd.

Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen



Canu dan 8 oed [Cyf] – 1. Nia Morgans, Gorsgoch. 2. Megan Mai, Llanwnnen. 3. Lois Jones, Cwmsychpant a Nia Beca, Llanwnnen.



Llefaru dan 8 oed [Cyf] – 1. Nia Morgans, Gorsgoch. 2. Nia Beca, Llanwnnen. 3. Guto Ebbsworth, Llanwnnen a Megan Mai, Llanwnnen.



Canu 8 - 11 [Cyf] – 1. Elin Davies, Cwmsychpant. 2. Alpha Jones, Llanybydder. 3. Hanna Davies, Drefach a Beca Jenkins, Cwmsychpant. **Llefaru [Cyf]** – 1. Alpha; 2. Elin; 3. Hanna a Beca.



Dwy ffrind yn ennill - Gwawr Hatcher, Gorsgoch (chwith) yn ennill y cyntaf ar yr unawd 12-16 oed a Meleri Davies, Cwmsychbant yn ail.



Enillwyd y Gadair i rai dan un-ar-hugain oed gan Carys Mair Davies, Llanbadarn Fawr gyda ei cherdd gaeth ar y testun "Llawenydd". Mae Carys ar ei hail flwyddyn yng Ngholeg Caerdydd yn astudio Cymraeg a'r Gyfraith.



Lowri Elen Jones, Llambod yn ennill y cyntaf ar ganu penillion dan 15 oed ac ar yr adrodd 12-16 oed.



Cyntaf yng nghystadlaeth adrodd 10-12 oed Rhys Davies, Cwmsychbant



WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL MAI 15ed – 21ain 2011

Faint fyddwch chi'n talu am gwpaned o goffi yn eich caffi lleol? £1? £1.50? £2? Mae'n dibynnu ar y coffi wrth gwrs. Os ydych chi'n un am rywbeth gwahanol i'r mwg o goffi sydyn gyda llaeth twym - latte falle, mocha, frappuccino, llaeth soia,

blas caramel neu sinsir - fe all fod yn dipyn mwy na hynny. Ydi, mae coffi yn fusnes proffidiol iawn, gwerth dros £1biliwn yn y DU yn unig mae'n debyg. Mae 'na sawl paned fanna!

Byddech chi'n meddwl felly bod ennill bywoliaeth trwy ffermio ffa coffi yn fater digon rhwydd. Ond dim o'r fath beth! Mae tua 25 miliwn o ffermwyr bach ar draws y byd yn dibynnu ar dyfu coffi am eu bywoliaeth, ond mae'r mwyafrif yn brwydro mewn tlodi, gan weithio oriau hir am ychydig iawn o arian. Dyna'r gwir am Nicaragua, lle mae 80% o'r boblogaeth yn byw ar lai na £1.50 y diwrnod. Cymharwch hynny gyda phris eich cappuccino arferol!

Mae ardal fynyddig Jinotega, a adnabyddir fel 'prifddinas coffi' Nicaragua, yn llawn o gymunedau o ffermwyr bach coffi yn ceisio cynnal eu teuluoedd. Mae'r system Masnach Deg ynghyd â'r diddordeb cynyddol mewn bwydydd organaidd sy'n amgylcheddol gyfeillgar wedi gallu cynnig rhaff achub i rai, a gwella eu bywydau. Ond mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni am roi sylw i waith mudiad o'r enw 'Soppexcca', partner Cymorth Cristnogol, sydd wedi ymrwymo i helpu ffermwyr coffi tlawd Jinotega i drechu tlodi.

Yn draddodiadol mae'r ffermwyr bach wedi gweithredu fel unigolion gan werthu eu ffa coffi amrwd yn y marchnadoedd lleol. Yn aml doedd ganddynt ddim syniad o werth eu ffa, a fawr ddim dewis ond derbyn y pris roedd y prynwr yn ei gynnig. A hyd yn oed a bo'r prynwr yn onest, bach iawn yw gwerth y ffa heb eu prosesu.

Ers ei sefydlu deng mlynedd yn ôl mae Soppexcca wedi bod yn annog ffermwyr i ddod at ei gilydd a sefydlu cwmnïau cydweithredol. Trwy wneud hynny maent yn cael help ariannol ac arbenigol i wella ansawdd eu coffi, cynyddu eu cynnyrch a'i farchnata'n well. Bellach mae Soppexcca yn gasgliad o 18 o gwmnïau cydweithredol (co-operatives) sy'n cynrychioli 700 o ffermwyr bach coffi. Trwy gyd-weithio mae'r ffermwyr yn gallu sicrhau pris teg am eu coffi ac maent yn derbyn cyfran o'r elw. Defnyddir yr incwm ychwanegol i ehangu ffermydd a chael offer prosesu syml, ond y mae hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol fel ysgolion, canolfannau iechyd, casglu sbwriel a phlannu coed gan wella bywyd y gymuned gyfan.

Gydag incwm wedi dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae Soppexcca wedi llwyddo i sicrhau benthygiad o \$500,000 ar gyfer prynu 'ffatri brosesu sych'. O hyn allan fe fydd y ffermwyr yn gallu prosesu ac allforio eu coffi, gan dorri allan y rhyngfasnachwr. Trwy hynny fe welant gynydd yn eu helw fydd yn gwella bywoliaeth y teuluoedd unigol a dod a mwy o welliannau i'r gymuned.

Mae cymuned Los Alpes yn enghraifft dda o'r trawsnewid a ddaw trwy gyd-weithio. Gyda chefnogaeth Soppexcca maent wedi gweithio'n llwyddiannus i sefydlu ysgol a chanolfan iechyd. I Gustavo Talavera, un o'r sylfaenwyr, roedd gweld yr ysgol yn gwireddu hen freuddwyd. Meddai, 'Ches i mo'r cyfle i fynd i'r ysgol, felly rwy'n dweud wrth fy mhlant am astudio a gwneud beth fethais i.'

Trwy gyd-weithio fe gyflawnir mwy nag y gellid ei wneud yn unigol ac mae bywyd pawb yn gwella. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn rhoi'r cyfle i ninnau ymuno yn y cydweithredu hwn, gan helpu sicrhau bywyd gwell i gymunedau tlawd ar draws y byd.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau eich gwyliu Pasg ac wedi bwyta digon o wyau siocled blasus! Sawl ŵy gawsoch chi? Gobeithio na fwytach chi ormod a chael bola tost!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y cyw yn yr ŵy Pasg mis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Chloe Marie Jones a Jac Evans o Bencarreg. Ond yr ŵy pasg a'r cyw mwyaf lliwgar y mis yma yw un Jamie Jones, 10 Heol y Maes, Pencarreg. Llongyfarchiadau mawr i ti Jamie!


Mae'r tywydd wedi bod yn braf mis hyn eto ac mae'n bwysig iawn ein bod ni yn yfed digon o ddŵr os ydyn ni'n mynd mas i chwarae. Beth arall ydych chi'n meddwl sydd angen dŵr yn y tywydd poeth? Edrychwch ar lun fy ffrind Ceri Corrach yn rhoi dŵr i'r ardd. Ydych chi'n edrych ar ôl yr ardd adref neu yn yr ysgol? Beth am liwio llun Ceri Corrach a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Mai 23ain.

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Jamie
Jones



Enw:

Cyfeiriad:



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
http://cis.ceredigion.gov.uk

Cysylltwch â ni am fanylion
pellach



Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

Gwasanaeth Casglu Gwastraff Masnachol Newydd

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:*
01570 421421

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd**
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421



Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CLONC

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Eleri Thomas BSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw'lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Cartrefi'r Cwm Cyf

**GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS**



**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

**FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL**

07814 027849



**CYFLENWI
LLORIAU PREN
CALED A'U GOSOD**



YSWIRIANT FUW Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu fel ymlynfa i'r
Herddedol a Chosodwyr Cymru. Gwneir ystyried i'r holl gyfnewidiadau
a ddigwyddir yn ystod y cyfnewidiadau.

**Mae CLONC wastad yn chwilio
am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl
neu dynnu lluniau?*

*Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?*

*Rydym yn chwilio am swyddogion
hysbysebu a swyddogion
gwerthiant.*

*Allech chi sbario awr y mis wrth
ymuno â'r criw ffyddlon sy'n
plygu Clonc?*


Cysylltwch ag un o'r Bwrdd
Busnes er mwyn cynnig eich
gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Noson wobrwyo....



Cynhaliwyd Noson Wobrwyo Ysgol Gyfun Llambled ar Nos Iau Ebrill
14eg. Y gŵr gwadd oedd Gary Owen, Cyflwynydd Radio a Theledu.
Yn y llun mae - o'r chwith - Maer Llambled Cyng Pob Phillips a Delyth
Morgans; Ben Lake, Prif Fachgen; Cyng Haydn Richards, Cadeirydd y
Llywodraethwyr; Dylan Wyn, Pennaeth; Gary Owen, Gŵr Gwadd; Eifion
Evans, Cyfarwyddwr Addysg ac Elliw Dafydd, Prif Ferch,

Eisteddfod Rhanbarth Dawns, Aelwydydd ac Uwchradd



Rhes 1 – Grŵp Dawnsio Hip Hop/Stryd neu Disgo – Ffynnonbedr 1af, Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [dros 100 o blant] – Ffynnonbedr 2il; Rhes 2 – Guto Gwilym, Aelwyd Llamedd – Llefaru 19 – 25 2il a Chyflwyniad Theatr 19 – 25 1af. Dawns Cyfansoddiad Creadigol – Ffynnonbedr 1af. Rhes 3 – Meinir Davies, Aelwyd – Unawd Piano Bl. 7 – 9 – 3ydd. Meirion Siôn Thomas, Aelwyd – Unawd Cerdd Dant 2il, Alaw Werin 3ydd, Unawd Bechgyn 2il. Aron Dafydd, Aelwyd – Alaw Werin 3ydd. Elli Dafydd, Aelwyd – Monolog 1af, Unawd Sioe Gerdd 1af. Rhes 4 – Lowri Elen, Aelwyd – Unawd Merched 1af, Llefaru 2il. Charlotte Saunders, Ffynnonbedr – Dawns Unigol 1af. Dawns Werin Bl. 4 ac Iau – Y Dderi 1af. Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [hyd at 100 o blant] – Llanwnnen 2il.